

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau

Y flwyddyn yn diwedd
31^{ain} Gorffennaf 2024

W

Cynnwys

Report of the Cadeirydd of the Board of Governors

4

Governors and Trustees of the University

8

Governor Attendance

13

Statement on Governor Independence

14

Statement on Managing Conflicts of Interest

14

The University's Vision and Strategy 2025

15

Vice-Chancellor's Review of the Reporting Year

16

Highlights from our delivery of the Vision and Strategy 2025

- Teaching that inspires
- Research that transforms
- Engagement that enables
- Structure that sustains
- Risks and mitigations
- Stakeholder engagement

16

16

17

18

18

20



Report of the Financial Year 2023/24	23
Charity Information and Public Benefit Statement	34
Corporate Governance Statement and Statement of Internal Controls	41
Committee Reports	
Audit and Risk Committee	42
Strategy and Finance Committee	44
Academic Quality and Standards Committee	46
People and Culture Committee	48
Nominations and Governance Committee	50
Remuneration Committee	52
- Vice Chancellor's Remuneration	53
Vice-Chancellor's Executive Committee	55
Academic Board	57
Risk Management and Internal Control	59
Responsibilities of the Board of Governors	62
Independent Auditors' Report	64
Statement of Principle Accounting Policies	69
Financial Statements	71



Adroddiad Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr



Dr Leigh Griffin
Cadeirydd y Bwrdd
Llywodraethwyr

Cyflwyniad

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn brysur o newid a thwf i Brifysgol Wrecsam. Rydym wedi cryfhau ein henw da ac wedi ennill mwy o barch eto am ein hymrwymiad i ofal a chefnogaeth, ac am ehangu cyfranogiad mewn addysgu uwch drwy alluogi myfyrwyr i adeiladu a rhyddhau eu dyheadau.

Mae gan ddinas Wrecsam a Phrifysgol Wrecsam fel ei gilydd enw da sy'n tyfu ac maent yn llefydd lle gall pobl dyfu ac ymestyn eu huchelgais. Rwyf mor falch o fod â rôl lle gall y twf hwn gael ei gefnogi a'i hyrwyddo, gan danio potensial ac uchelgais yn lleol.

Mae'r Brifysgol wedi croesawu'r ailfrandio fel Prifysgol Wrecsam, tra'n ymrwymo i aros yn driw i'r ffordd rydym yn dathlu ein Cymreictod. Rydym yn gweithio'n agosach fyth gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, Coleg Cambria, Clwb Pêl-droed Wrecsam, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Grŵp Llandrillo Menai, Tŷ Pawb a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gydnabod y bydd cydweithrediad a rhagoriaeth yn atgyfnerthu'r economi leol a balchder cymunedol. Yn yr un modd, mae ein hymrwymiad i'n cenhadaeth ddinesig yn cael ei adlewyrchu yn ein cyfranogiad cryf ym Mhartneriaeth Porth Wrecsam, Cynllun Twf Gogledd Cymru, y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a Chynghrair Merswy a Dyfrdwy. Rydym yn gryf yn unigol, a hyd yn oed yn gryfach mewn partneriaeth.

Perfformiad

Mae Prifysgol Wrecsam yn hyrwyddo ac yn galluogi cynhwysiant cymdeithasol a dysgu gydol oes. Rydym yn falch o'n hymrwymiad i amrywiaeth a'n cefnogaeth iddo ac rydym yn croesawu myfyrwyr ar draws y DU ac ar draws y byd i ddysgu gyda ni mewn amgylchedd sy'n cael ei gydnabod yn eang am am fod yn gyfeillgar ac yn ymrwymedig i ansawdd.

Mae'r rhain yn fwy na dim ond geiriau coeth. Yn 2023/24 fe wnaethom gyflawni'r gydnabyddiaeth ganlynol:

- Ar y brig o blith holl brifysgolion Cymru (data Arolwg Myfyriwr Cenedlaethol, Gorffennaf 2024) ar gyfer dysgu, asesu ac adborth a chefnogaeth Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr.
- Yr ail o blith holl brifysgolion Cymru am lais y myfyriwr a bodlonrwydd cyffredinol.
- Ar y brig o ran cwrs nyrsio oedolion ar draws y DU gyfan ar gyfer dysgu, asesu ac adborth
- Ar y brig o ran cwrs cymdeithaseg ar draws y DU gyfan ar gyfer dysgu, asesu ac adborth
- Nawfed o blith holl fusnesau/sefydliadau dysgu y DU am ein cefnogaeth i amrywiaeth LHDTG+ (Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2024) - i fyny o'r 41ain yn 2023

Ym mis Medi 2024, datganodd y Sunday Times Good University Guide "Boed yn enw newydd neu hen, mae Wrecsam yn parhau i fod y gorau o blith cyfoedion fel y brifysgol mwyaf cynhwysol yn gymdeithasol yng Nghymru a Lloegr am y seithfed flwyddyn yn olynol".

Rydym yn falch o'r cyflawniadau hyn, sy'n ein cymell ymlaen at welliannau pellach. Er enghraifft, er ein bod wedi dod ar y brig o ran prifysgolion yn y DU ar gyfer ehangu cyfranogiad, rydym am gyflawni mwy o ran cyfradd gadw ein myfyrwyr, a byddwn yn sicr o wneud hynny. Yn yr un modd, er bod gennym gyfartaledd deilliant ar gyfer graddedigion yn sicrhau cyflogaeth werthfawr sy'n uwch na'r sector, rydym yn gwybod bod yna gyfle i wneud mwy wrth i ni weithio hyd yn oed yn fwy agos gyda chyflogwyr lleol.

Rydw i hefyd angen tynnu sylw at y ffaith fod 2023/24 yn flwyddyn arall lle llwyddodd Prifysgol Wrecsam i gydbwysu ei llyfrau, a chynhyrchu gwared weithredol. Ynghyd â'r

fffaith nad ydym mewn dyled i unrhyw drydydd parti, mae hynny, rwy'n credu yn beth prin ymhlith Prifysgolion, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Mae'n rhaid, fodd bynnag, i ni beidio â bod yn hunanfodlon, gan fod gwyntoedd croes sy'n effeithio ar addysg uwch ar draws y DU, gyda lefelau ffioedd heb gynyddu ers dros ddegawd a thrafodaeth sydd wedi troi'n wleidyddol yn cwestiynu pwrpas addysg uwch.

Rydym yn ymwybodol bod unrhyw 'fethiannau' ariannol canfyddedig sydd gan brifysgolion ar draws y DU yn yn cyfrannu ymhellach at niweidio enw da'r sector ac ymddiriedaeth ynddi, ac mae'n ddyletswydd arnom i gyd i dynnu sylw at y cyfraniad mae Prifysgolion yn ei wneud i les personol ac economaidd drwy gyflawniadau ein myfyrwyr o gartref a thramor. Mae'r DU yn parhau i gael ei chydabod yn rhyngwladol am ansawdd ei haddysg uwch, ac mae'n rhaid i ni gyd weithio i gynnal yr enw da yma a sicrhau ei fod yn parhau i haeddu hynny.

Arloesedd

Rydym yn ddyfeisgar ac yn ddiflino yn ein hawydd i wella ansawdd ein hadnoddau ar gyfer dysgwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi lansio gofodau newydd, gan gynnwys labordy Biomecaneg a Gwyddorau Perfformio o'r radd flaenaf, Academi Arloesi Seibr a'n cam diweddaraf o'n Hardal Arloesi Iechyd ac Addysg cyffrous. Rydym hefyd yn torri tir newydd gyda Chanolfan Opteg a Pheirianeg Menter (EEOC), sy'n adlewyrchu'r hyder sydd wedi'i fuddsoddi yn y Brifysgol gan Gynllun Twf Gogledd Cymru. Rydym wedi parhau i dyfu ein cefnogaeth i Brifysgol Plant Gogledd Cymru, gan weithio'n agos gyda'n cydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor i weld dros 400 o gyflawnwyr ifanc yn graddio.

Mae'r ymrwymiad hwn i ddysgu gydol oes hefyd yn cael ei adlewyrchu yn lansiad y cwrs Prentisiaeth Gradd Adeiladu wedi'i ariannu'n llawn ar y cyd gyda'n cydweithwyr llwybrau dysgu yng Ngholeg Cambria.

Rheoleiddiad

Ym mis Awst 2024 gwelwyd sefydlu Medr, bwrdd rheoleidiol newydd ar gyfer addysg bellach ac uwch ar draws Cymru, i gymryd lle HEFCW, y rheoleidiwr blaenorol ar gyfer Prifysgolion. Rydym yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad hwn fydd yn rhoi trosolwg o lwybrau dysgu ar gyfer pob un sydd yn 16 a throsodd, gan obeithio a chredu y bydd hyn yn agor y drws i gyfleoedd pellach ar gyfer gweithio gyda darparwyr addysg uwch er mwyn adeiladu llwybrau ar gyfer datblygu ddysgu sy'n berthnasol ac sy'n hygyrch i ddysgwyr lleol a'r economi leol.

Edrychwn ymlaen at berthynas agored, gynhyrchiol gyda Medr, ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar drafodaethau gyda HEFCW er mwyn gwella sicrwydd ansawdd ein holl ddysgu i fyfyrwyr gartref a rhyngwladol. Rydym yn credu bod gennym gryfderau sylweddol yn y meysydd hyn ac yn edrych ymlaen at arddangos hyn yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2025. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn o'r pwys mwyaf i'n twf pellach, a bydd hefyd gobeithio yn galluogi dyfarnu pwerau dyfarnu graddau ymchwil i Brifysgol Wrecsam.

Ein Pobl

Mae wedi bod yn flwyddyn o newid yn arweinyddiaeth y Brifysgol, wrth inni ddweud ffarwel wrth yr Athro Maria Hinfelaar, y bu i'w thymor fel Is-ganghellor weld cyflawniad a thwf anhygoel ym Mhrifysgol Wrecsam, o

sefyllfa o fod yn eithriadol o fregus yn 2016 i fod mewn safle cymharol gryf erbyn hyn. Yn cymryd lle Maria fel Is-ganghellor, rydym wrth ein bodd yn croesawu'r Athro Joe Yates, wnaeth ddechrau ym mis Awst 2024, ac yn syth, fe lwyddodd i ennyn enw da a pharch, a hynny'n fewnol a chyda phartneriaid, gan osod agenda uchelgeisiol a chyffrous iddo'i hun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ymunwyd â Paul gan yr Athro Paul Davies fel Dirprwy Is-ganghellor yn dilyn cyfnod o reolaeth interim. Rwy'n hynod falch fod Wrecsam wedi denu ymgeiswyr o safon mor uchel ac rwy'n hyderus y bydd arweinyddiaeth Joe a Paul yn ein llywio tuag at uchelfannau newydd.

Ni all yr un Prifysgol gyflawni unrhywbeth heb staff medrus, a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonynt am eu hymrwymiad a'u talent, sydd, fel sy'n weddus, wedi'i adlewyrchu yn yr adborth myfyrwyr sy'n dathlu eu gwerth. Yn yr un modd, hoffwn gydnabod a diolch am y cyfraniad enfawr sydd wedi'i wneud gan Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr ac yn rhyngweithio'n broffesiynol gyda rheolwyr a'r Bwrdd. Dyw rôl Arweinwyr Myfyrwyr ddim yn un hawdd mewn cyfnod lle mae nifer o fyfyrwyr yn profi problemau ariannol a phryderon tra'n gweithio'n galed ar gyfer eu cymwysterau, ac mae'r cydymdeimlad a'r ystod o gefnogaeth ymarferol a ddarperir gan eu Hundeb yn wych.

Rwy'n freintiedig iawn i fod yn arwain Bwrdd Llywodraethwyr sy'n cynnwys amrywiaeth enfawr o sgiliau a phrofiad amrywiol, a phob un ohonynt yn rhoi eu gwasanaeth i Brifysgol Wrecsam am ddim. Credaf ein bod yn gweithio'n hynod effeithiol gyda rheolwyr y Brifysgol, yn darparu heriau a cheisio sicrwydd tra'n rhannu brwdfrydedd i gyflawni'r gorau bob amser.


Dros 2023/2024 fe wnaethom ffarwelio gyda Sandra Jowett, David Subacci, Richard Thomas, Karen Heald ac Amy Anglesey fel llywodraethwyr, a bu i bob un ohonynt gyfrannu gyda gofal ac angerdd, a hoffwn ddiolch iddynt i gyd a dymuno'n dda iddynt. Yn eu lle, rydym yn croesawu Howard Jones, Sam Hale, Chris Hamilton a Paul Kirkbright. Rydym hefyd yn croesawu Cerys Alonso fel llywodraethwr staff, Freya Groom fel Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr, a Maisie Head wrth iddi gychwyn ar ei thymor fel Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd.

Dau ddiolch pellach: yn gyntaf, i Colin Jackson am ei ymrwymiad heintus a'i bresenoldeb rheolaidd yn Wrecsam yn ei rôl fel Canghellor. Athletwr gwych, person gwych ac eiriolwr

ardderchog. Yn ail, i David Clarke, sydd wedi ymuno gyda Phrifysgol Wrecsam fel Clerc i'r Bwrdd ym Mis Medi 2024 yn dilyn gwasanaeth anhygoel Val Butterworth. Mae David yn darparu cefnogaeth o'r radd flaenaf i mi a'r Bwrdd ac y mae'n gynghorwr gwerthfawr.

Casgliad

O gloi, hoffwn i ddiolch i bawb sydd ynghlwm wrth Brifysgol Wrecsam am eu hymrwymiad i'r Brifysgol a'u cefnogaeth bersonol i mi. Mae'n ffrind i mi fod yn Cadeirydd, a mwynhau cael chwarae rhan fach yn nhaith (Prifysgol) Wrecsam!



Y Bwrdd Llywodraethwyr



Dr Leigh Griffin

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Ebrill 2022

Cadeirydd y Bwrdd, aelod Ex-officio o'r:

Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu, Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau



Paul Barlow

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Rhagfyr 2018

Is-gadeirydd y Bwrdd

Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



Yr Athro Sandra Jowett

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Mai 2016

Aelodaeth o'r Bwrdd wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2024

Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau;

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



Judy Owen

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg




Claire Homard

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Chwefror 2020

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu

Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



Diane McCarthy

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021

Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Is-gadeirydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu

Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant Aelod o'r Pwyllgor

Cydnabyddiaeth Ariannol



Richard Thomas

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021

Aelodaeth o'r Bwrddwedi dod i ben Gorffennaf 2024

Is Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau

Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid



Yr Athro Martin Chambers

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2021

Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Cyfarwyddwr Anweithredol Glyndwr Innovations Ltd

Cyfarwyddwr Anweithredol Glyndwr Innovations Ltd



Will Naylor

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023

Is-gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



David Subacchi

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2016

Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant;

Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Aelod o'r Pwyllgor Tâl

Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



Maureen Wain

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2021

Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau



Richard Campbell

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2022

Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg



Liam Wynne

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2022

Cyfarwyddwr Anweithredol Gwyddoniaeth Gogledd Cymru



Fabrizio Trifiro

Llywodraethwr Annibynnol | Penodwyd ym mis Medi 2023

Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau



Yr Athro Maria Hinfelaar

Vice Chancellor and Chief Executive | Appointed July 2021

Aelodaeth o'r Bwrddwedi dod i ben Awst 2024

Aelod Ex-officio: Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Pwyllgor Pobl

a Diwylliant, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor

Ansawdd Academaidd a Safonau

Y Bwrdd Llywodraethwyr (parhau)



Sally Lambah

Llywodraethwr Etholedig Staff (Gwasanaethau Proffesiynol)
Penodwyd ym mis Medi 2021




Dr Karen Heald

Llywodraethwr Enwebedig y Bwrdd Academaidd
Penodwyd ym mis Rhagfyr 2022
Aelodaeth o'r Bwrdd wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2024
Aelod Ex-officio o'r: Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor
Ansawdd Academaidd a Safonau



Sarah Dubberley

Llywodraethwr Staff Etholedig (Staff Addysgu)
Penodwyd ym mis Medi 2023



Amy Anglesea (nee Rowley)

Myfyriwr Lywodraethwr | Penodwyd ym mis Medi 2021
Aelodaeth o'r Bwrdd wedi dod i ben ym mis Medi 2024
Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau ac Aelod o'r
Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant a'r Pwyllgor Strategaeth
a Chyllid (arsyllwr)



Maisie Head

Myfyriwr Lywodraethwr | Penodwyd ym mis Mehefin 2023

Llywodraethwyr Newydd 24/25



Yr Athro Joe Yates

Is-ganghellor a Phrif Weithredwr
Penodwyd ym mis Awst 2024



Freya Groom

Myfyriwr Lywodraethwr
Penodwyd ym mis Mehefin 2024



Sam Hale

Llywodraethwr Annibynnol
Penodwyd ym mis Medi 2024



Howard Jones

Llywodraethwr Annibynnol
Penodwyd ym mis Medi 2024



Paul Kirkbright

Llywodraethwr Annibynnol
Penodwyd ym mis Medi 2024



Cerys Alonso

Llywodraethwr Enwebedig y Bwrdd
Academaidd
Penodwyd ym mis Medi 2024

Aelod Ex-officio o'r: Pwyllgor Enwebiadau
a Llywodraethu a'r Pwyllgor Ansawdd
Academaidd a Safonau

Cofnod o Bresenoldeb Yng Nghyfarfodydd 23/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Leigh Griffin	5/5
Paul Barlow	4/5
Richard Campbell	5/5
Martin Chambers	4/5
Claire Homard	3/5
Sandra Jowett	4/5
Diane McCarthy	5/5
Will Naylor	5/5
Jayne Owen	4/5
David Subacchi	5/5
Richard Thomas	5/5
Fabrizio Trifiro	4/5
Maureen Wain	4/5
Liam Wynne	4/5
Sally Lambah	4/5
Karen Heald	3/5
Sarah Dubberley	5/5
Maisie Head	5/5
Amy Anglesea	2/3
Freya Groom	1/1
Maria Hinfelaar	5/5

Annibynniaeth Y Llywodraethwr

Yn ôl ei gyfansoddiad, mae'n rhaid i'r Bwrdd fod yn cynnwys mwyafrif o aelodau annibynnol sydd wedi eu penodi mewn ffordd eglur a thryloyw. Mae'r broses benodi eang wedi'i hamlinellu yn adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Argymhellodd adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Camm) yn 2019 y dylid gosod trothwy uwch ar gyfer annibynniaeth llywodraethwr na'r hyn oedd yn bodoli ar adeg yr adolygiad, ac y dylai'r materion hynny a allai gyfaddawdu annibynniaeth llywodraethwyr gael eu cynhyrchu a'u gwneud yn gyhoeddus, a'u cyflwyno gyda gwybodaeth a gyhoeddir yn flynyddol o leiaf gan brifysgolion.

Cafodd canllawiau ar Annibynniaeth ar gyfer Llywodraethwyr eu datblygu ar gyfer Prifysgolion Cymru gan dynnu ar arfer da llywodraethiant yn y brifysgol a'r sectorau corfforaethol, gyda'r disgwyliad y bydd yn cael ei fabwysiadu gan gyrff llywodraethu pob prifysgol yng Nghymru. Mae Bwrdd Prifysgol Wrecsam wedi mabwysiadu'r canllawiau fel cyfres o egwyddorion sy'n cefnogi llywodraethiant da.

Y Llywodraethwyr Annibynnol yw'r rhai a benodir gan y Bwrdd sydd heb fod yn fyfyrwyr cofrestredig nac ychwaith yn aelod o staff y Brifysgol, nac yn berson o awdurdod lleol etholedig. Mae Llywodraethwyr Annibynnol yn allweddol er mwyn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd mewn prifysgolion, ac mae Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant y Bwrdd yn ystyried annibynniaeth llywodraethwyr posib drwy'r broses recriwtio gan ddefnyddio'r Canllawiau ar Annibynniaeth er mwyn cyfeirio ato a thrafodaeth, drwy ddatganiad buddiant a wneir gan bob llywodraethwr a llofnodi datganiad cymhwysedd llywodraethwr.

Rheoli Gwrthdaro Buddiannau

Unwaith y maent wedi'u penodi, mae'r cyfrifoldeb ar y llywodraethwyr i fod yn dryloyw ac i arddangos eu hannibynniaeth a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, canfyddedig neu bosib. Fel ymddiriedolwyr elusen mae'n ofynnol i lywodraethwyr yn ôl y gyfraith i weithredu er budd yr elusen yn unig. Er bod cysylltiadau personol a phroffesiynol yn dod â buddion i waith y brifysgol, gallant fod yn achos gwrthdaro buddiannau y mae'n rhaid i lywodraethwyr ymateb yn effeithiol iddynt.

Yn dilyn cwblhau ffurflen datganiad buddiant pan maent yn ymuno gyda'r Bwrdd yn y lle cyntaf, mae'n ofynnol i lywodraethwyr adolygu a diwygio eu datganiad fel sy'n berthnasol, a hynny o leiaf yn flynyddol a chadw Clerc y Bwrdd yn gyfredol gydag unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n effeithio ar eu datganiad buddiant. Cyhoeddir cofrestr o fuddion yr aelodau ar wefan y Brifysgol. Mae'r Bwrdd hefyd yn chwarae rhan yn y broses sy'n galluogi i'r holl lywodraethwyr fod yn datgan unrhyw fuddiannau yn rhagweithiol ar ddechrau bob cyfarfod bwrdd a phwyllgor sy'n berthnasol i unrhyw eitem sy'n cael ei thrafod.

Lle mae gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, canfyddedig neu bosib wedi'u hadnabod yn ystod gwaith y Bwrdd, bydd Cadeirydd y Bwrdd neu Gadeirydd y pwyllgor perthnasol yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, ac fel man cychwyn ni chaniateir i'r llywodraethwr gyfranogi yn nhrafodaeth yr eitem fusnes. Cofnodir lefel cyfranogiad y llywodraethwr sydd wedi datgan buddiant mewn eitem fusnes yng nghofnodion y cyfarfod.

Gweledigaeth a Strategaeth 2025

Odanein Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025 fe wnaeth ein cenhadaeth ym Mhrifysgol Wrecsam barhau fel a ganlyn: i ysbrydoli a galluogi drwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltiad; cydweithio gyda'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.

Ein gwerthoedd yw bod yn:

Hygyrchedd

Rydym yn eiriolwyr brwd dros ddysgu gydol oes ac yn grediniol na ddylai cefndir ac amgylchiadau fod yn rhwystr rhag ymgysylltu ag addysg uwch. Rydym yn ymrwymedig i hygyrchedd, tegwch a chynhwysiant yn y modd rydym yn addysgu, ymchwilio a darparu ein gwasanaethau.

Cefnogol

Rydym yn meithrin amgylchedd cefnogol i annog ein staff a'n myfyrwyr i gydweithio i gyflawni eu hamcanion dysgu, ymchwil a gyrfa. Mae ein cymunedau yn bwysig i ni ac rydym yn arwain a chefnogi mentrau sy'n cyfoethogi'r economi leol a bywydau pobl leol mewn modd rhagweithiol.

Arloesol

Rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn cydnabod bod ein llwyddiant yn ddibynnol ar egni, deallusrwydd a chreadigrwydd cymuned y brifysgol ar y cyd. Rydym yn weithredol yn annog persbectifau newydd ac arloesi o ran dysgu, ymchwil a'n hymgysylltiad gyda chymunedau a phartneriaid. Rydym yn cwestiynu sefyllfa gyfredol pethau ac yn ddigon dewr i wireddu ffordd newydd o wneud pethau. Mae hyn yn galluogi ein diwylliant, strwythur, polisiau a phobl i yrru rhagoriaeth ac ymateb yn effeithiol i anghenion.

Uchelgeisiol

Yn ddiedifar, rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ein staff, myfyrwyr a'n cymunedau. Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw gyfyngiadau i ddysgu a gwybodaeth ac rydym yn herio pobl i wireddu eu dyheadau a llwyddo trwy addysg.

Rhoddir mynegiant i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol yn y weledigaeth ar gyfer ein pedwar parth strategol: dysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n trawsnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal.

Gyda'u gilydd, mae'r parthau strategol yn siapio ein gweledigaeth i fod y dewis le ar gyfer ein myfyrwyr, partneriaid a staff.

Adolygiad yr Is-Ganghellor o'r Flwyddyn Adrodd



Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr
Gorffennaf 2024

Uchafbwyntiau ein darpariaeth o Weledigaeth a Strategaeth 2025

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe ddechreuom ar y gwaith o lunio Gweledigaeth a Strategaeth hyd at 2030, gan adeiladu ar lwyddiannau Strategaeth 2025. Ymgwymerwyd â phroses ymgynghori gynhwysfawr yn cynnwys myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol. Cadarnhaodd y broses hon bod hunaniaeth ac ethos Prifysgol Wrecsam fel prifysgol fodern hyderus sy'n tyfu yn ased pwerus i'w coleddu, hyd yn oed wrth i ni ddatblygu set newydd o nodau ac amcanion strategol.

Bydd ein pwrpas craidd yn parhau i fod i drawsnewid unigolion a chymunedau, o'n rhanbarth a thu hwnt, drwy eu haddysg uwch a chyda ffocws eglur ar broffesiynoldeb a chyflogadwyedd. Ma hyn yn berthnasol ledled prif edefynnau ein portffolio o fewn Iechyd, STEM, y Gwyddorau Cymdeithasol, Busnes a'r Diwydiannau Creadigol. Mae cydweithredu gyda diwydiant a phartneriaid cymunedol, yn ogystal â chyrff addysgol eraill, yn ganolog i'n cyfeiriad strategol. Yn sail bellach i hyn yw ein gwaith cenhadaeth ddinesig arloesol yn y rhanbarth, sy'n gosod y safonau yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Bydd Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2030 newydd yn cael ei lansio'n gyhoeddus yn gynnar yn 2025.

Llwyddiannau Allweddol yn 2023/24

Mae'r adran hon yn nodi prif gyflawniadau'r Brifysgol dros y flwyddyn adrodd yn erbyn y parthau yn y Weledigaeth a Strategaeth hyd 2025.

Dysgu sy'n ysbrydoli

Dechreuom ar adolygiad portffolio sy'n ystyried holl ddarpariaeth Prifysgol Wrecsam yn y cylch. Mae'r paramedrau ar gyfer adolygu iechyd rhaglen yn cynnwys metrigau allweddol megis niferoedd derbyn myfyrwyr, cyfraddau cadw a dilyniant, boddhad myfyrwyr a chyflogaeth graddedigion.

Mae ystyriaethau mwy holistig ar gyfer adolygiadau portffolios y rhaglen yn cynnwys 'cyd-fynd' gyda diwydiant rhanbarthol a'r gymuned, cyfrannu at greu gwybodaeth ac arloesi yn y maes a thraweffaith cenhadaeth ddinesig. Roeddem yn hynod falch o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2024. Fe wnaeth Prifysgol Wrecsam sgorio'n uwch na'r meincnod ar draws y DU ym mhob adran o'r arolwg ac eithrio un.

Yn benodol, daethom ar y brig yng Nghymru ar gyfer 'Dysgu ar fy Nghwrs' lle aethom dros y marc 90% am y tro cyntaf yn ein hanes. Fe wnaethom hefyd yn well na'r sector o 5% ar gwestiwn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr newydd sy'n gysylltiedig gyda gwasanaethau cefnogi lles meddyliol. Unwaith eto, fe wnaeth Undeb y Myfyrwyr yn arbennig o dda, gan ddod yn gydradd gyntaf yng Nghymru.

Mae'r sector addysg uwch yn eithriadol o gystadleuol, gyda nifer o wahanol opsiynau ar gael ei ddarparu fyfyrwyr. Gan hynny, mae'n eithriadol o bwysig cael gweld cefnogaeth mor gryf o'r ansawdd rydym ni'n ei gynnig i fyfyrwyr drwy ganlyniadau NSS mor bositif. Y flwyddyn adolygu oedd yr ail flwyddyn o'n contract ar gyfer darparu rhaglenni Nyrsio ac Iechyd Perthynol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan roi hwb i'n niferoedd cofrestru cyffredinol a chreu campws bywiog. Ynghyd â'n enw a'n brand newydd, fe arweiniodd hyn at gynydd sylweddol o ran ceisiadau o gylch UCAS 2023/24.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd ar y gwaith ar y ddogfen hunanwerthuso ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd fel rhan o'r model cylchol yng Nghymru. Comisiynir Adolygiadau Gwella Ansawdd i'r corff ansawdd dynodedig, sef yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Prifysgol Wrecsam fydd yr ail un yn y cylch sydd i ddod, gydag ymweliad panel ar y gweill ar ddechrau 2025.

Ymchwil sy'n trawsnewid

Roedd ymrestrïadau Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd yn gyson, tra oedd incwm Ymchwil a Datblygiad yn uwch na'r targed. Enillwyd grantiau aml-flwyddyn UKRI sylweddol gan dimau academiaidd o fewn y Celfyddydau a Pheirianeg wedi'i gefnogi gan y Swyddfa Ymchwil. Roedd yna hefyd rai Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth gyda chwmnïau yn y rhanbarth, yn cael eu harwain gan ein Swyddfa Fenter. Roedd y rhain yn bennaf ym maes Cyfrifiadureg a Pheirianeg. Roedd y Prif Ddangosyddion Perfformiad yn dueddol o adeiladu ar gynlluniau trothwy is megis talebau arloesi, a wnaeth brofi unwaith eto i fod yn ddull effeithio ar gyfer ymgysylltu'n ddyfnach yn ddiweddarach. Enillodd Glyndwr Innovations Lt, ein his-gwmni sydd wedi'i leoli yn Lloneurgain ac sy'n arbenigo mewn opteg a ffonoteg, gcontract proffil uchel gyda'r European Space Observatory er mwyn dylunio a datblygu segment dych 2 fetr ar gyfer eu telesgôp eithriadol o fawr. Cafodd y contract, sy'n werth £1.5m ei lofnodi ym mis Gorffennaf.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth Prifysgol Wrecsam groesawu panel wedi'i apwyntio gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a HEFCW er mwyn craffu ar ein cais am Bwerau Dyfarnu Graddau (RDAPau). Fe wnaethant gynydd da ar feini prawf allweddol, megis nifer y graddau PhD lwyddwyd i'w cwblhawyd ac ansawdd y goruchwylio a'r gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr ymchwil ac ymchwilwyr camau cyntaf. Fodd bynnag, bydd canlyniad y cais am Bwerau Dyfarnu Graddau yn cael ei ohirio hyd nes 2024/25 pan fydd yr Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) wedi'i gwblhau, oherwydd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Cymru lle mae prosesau o'r fath yn gorgyffwrdd. Mae ymgysylltiad rhagorol wedi bod gan lywodraethwyr, staff a myfyrwyr gyda'r broses adolygu RDAPau.

Ymgysylltu sy'n galluogi

Mae ein hymgysylltu gyda diwydiant a'r gymuned yn gryf.

Darparwyd cyrsiau byr, hyblyg ar-lein ar gyfer busnesau lleol ac unigolion sydd am ailsgilio a bu i'r Swyddfa Fenter hefyd yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn ehangu'r cynigion hyn ar draws Gogledd-ddwyrain Cymru.

Cafodd prentisiaethau gradd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru eu cynnig i gwmnïau ym maes Peirianeg a TG, a chafodd rhaglen brentisiaeth gradd mewn Gwaith Adeiladu a Pheirianeg Sifil ei lansio mewn cydweithrediad gyda phartneriaid Addysg Bellach, Coleg Cambria.

Fewnaetheincanolfandarganfodgwyddoniaeth Xplore! gynnig profiadau rhyngweithiol i ddenu pobl ifanc i fyd gwyddoniaeth a thechnoleg. Fel eu cydweithwyr yn y Swyddfa Fenter, dyfarnwyd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin o Xplore! yn ogystal er mwyn datblygu ei gweithgareddau ymhellach yng Nghanol Dinas Wrecsam.

Fel rhan o'n Strategaeth Ymgysylltu Dinesig ac wedi'i gefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, fe wnaethom gynnal amrywiol raglenni datblygu ar gyfer cyrff cyhoeddus yng ngogledd Cymru. Ymgwymerwyd â'r prosiect Prifysgol y Plant a gafodd draweffaith anferthol yn y rhanbarth.

Bu i'n cymuned o fyfyrwyr rhyngwladol dyfu, ac fe wnaethom ddatblygu ein partneriaethau academaidd ymhellach gydag ymrwymiad i adeiladu perthnasoedd cydweithredol gyda phartneriaid rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol lle mae aliniad gyda gweledigaeth strategol a gwerthoedd Wrecsam.

Strwythurau sy'n cynnal

Cafodd cynnydd mewn refeniw ei gynhyrchu gan feysydd twf, oedd yn gysylltiedig gyda strategaeth amrywiaeth y Brifysgol ac arian cyfalaf wrth gefn yn cynhyrchu arian.

Cyflwynir y canlyniadau ariannol llawn a'r nodiadau atodol mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Parhaodd y gwaith o ddarparu Prif Gynllun Campws 2025 £80m, gyda chwblhau Cam 2a yr Ardal Arloesi Iechyd ac Addysg yn gwasanaethu ein niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn y maes hwnnw. Maent yn cael budd o'r wardiau efelychu blaengar gydag offer newydd o safon y diwydiant.

Prosiect cyfalaf arall a hunanariannwyd sydd bellach wedi'i gwblhau yw'r Academi Arloesi Seibr sy'n cynnig dysgu arbrofol cyffrous i fyfyrwyr a phartneriaid allanol. Cafodd y cyfleuster hwn ei agor ym mis Gorffennaf.

Enillodd Wynne Construction y tendr i adeiladu'r Labordy Peirianeg newydd £10m ar y prif gampws (ye EEOC) a chafodd y dywarchen gyntaf ei thorri ym mis Chwefror. Erbyn diwedd y flwyddyn ym mis Gorffennaf, roedd y gwaith adeiladu ar gyfer y tirnod hwn o adeilad a ariannwyd gan Gynllun Twf Gogledd Cymru wedi hen ddechrau ac ar amser ar gyfer cwblhau yn ystod hydref 2025. Dyma brosiect mwyaf Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd ar waith hyd yma, a bydd yn sail i gyflogaeth ac ymchwil yn y sector gweithgynhyrchu uwch yn y rhanbarth.

Gan adeiladu ar ddeilliannau hynod bositif yr arolwg ymgysylltu staff eilflwydd annibynnol y flwyddyn flaenorol, mae morâl staff wedi parhau i fod yn dda er ei bod yn hysbys bod pwysau gwaith yn uchel. Cafodd amrywiaeth o

benodiadau staff gwasanaethau academiaidd a phroffesiynol eu gwneud i gefnogi meysydd twf, er enghraifft o fewn Nyrso a lechyd Perthynol, y Swyddfa Ryngwladol a'r Swyddfa Ymchwil.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd prosesau recriwtio oedd wedi'u cefnogi'n allanol ar gyfer arweinwyr hŷn o fewn y Brifysgol, yn benodol ar gyfer Is-Gadeirydd, Dirprwy Is-Gadeirydd a Deon Cyfadran newydd. Yn ogystal, cafodd rhai swyddi gwag ar y Bwrdd Llywodraethwyr eu llenwi.

Lliniaru Risgiau

Mae'r Brifysgol yn cynnal Cofrestr Risg Corfforaethol gyda chyfeiriad at y pedwar parth strategol. Yn ogystal, mae pumed categori yn edrych ar bolisi ac enw da yn allanol a'u traweffaith uniongyrchol ar y brifysgol. At ei gilydd, mae'r Map Poethder Risg ar gyfer y Brifysgol yn dangos nifer cymharol uchel o feysydd sy'n cael eu cyflwyno fel 'ambr' neu 'goch', o ystyried y cynnydd mewn ansicrwydd a heriau o fewn ei amgylchedd gweithredu a thwf cyflym newid yn fewnol. Cafodd y cofrestr risg ei gynnal gan y Tîm Arweinyddiaeth Hŷn a chraffwyd arno gan Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Llywodraethwyr. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Brifysgol fabwysiadu dull wahanol tuag at risg gorfforaethol, gyda datganiadau mwy eglur ynghylch 'y perygl o risg' ar gyfer pob un o'r parthau, a mwy o ffocws ar nifer fechan o risgiau a flaenoriaethwyd o dan bob pennawd. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad fanylach yn parhau i ddigwydd ar lefel adrannol lle roedd cofrestrau hefyd yn cael eu cynnal yno.

Ar gyfer y parth cyntaf, Dysgu sy'n Ysbrydoli, tybiwyd bod y risgiau allweddol ym maes ansawdd academiaidd ac mewn recriwtio a rheoli myfyrwyr gartref/rhyngwladol. Roedd

mesurau lliniaru yn cynnwys y Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr, cyfres o reoliadau academiaidd newydd a oedd yn gadarn ac ar yr un pryd yn gyfeillgar tuag at fyfyrwyr, ac adolygiadau blynyddol, gyda rhai ohonynt yn allanol. Bwriadwyd i'r fframwaith ar gyfe adolygu portffolios academiaidd a systemau ar gyfer defnydd mwy soffistigedig o ddata perfformiad y rhaglen leihau unrhyw risg gweddillol ymhellach. O safbwynt recriwtio myfyrwyr, rhagwelwyd y byddai buddsoddiad diweddar yn yr ailfrandio, marchnata digidol a'r dechnoleg CRM newydd yn lleihau'r risg, ynghyd â dull modern o ddelio gyda cyn mynediad a derbyniadau myfyrwyr gartref. Ar gyfer y farchnad myfyrwyr rhyngwladol, roedd mabwysiadu'r Fframwaith Ansawdd yr Asiant a buddsoddi mewn digwyddiadau recriwtio rhithiol yn weithredoedd oedd yn lliniaru.

O'r ail barth, Ymchwil sy'n Trawsnewid, y risgiau allweddol gafodd eu hadnabod oedd methu â chadw at ofynion llywodraethiant ymchwil a methu â chynyddu dwysedd ac ansawdd yr ymchwil. Fodd bynnag, yr oedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau eisoes yn eu lle mewn meysydd megis uniondeb academiaidd, moeseg ymchwil a chefnogaeth AD fel mesurau rheoli a lliniaru. Mae'r rhain wedi'u perchnogi gan bwyllgorau academiaidd perthnasol a'u cefnogi gan y Swyddfa Ymchwil. Cafodd datblygu capasiti ymchwil a chefnogaeth ragweithiol gyda chylchoedd REF y dyfodol hefyd eu blaenoriaethu.

Ar gyfer y trydydd parth, Ymgysylltu sy'n Galluogi, roedd canfyddiad bod risg yn ansawdd a nifer y partneriaethau academiaidd ym maes gweithgareddau arloesi, yng nghydestun cyflawni yn erbyn cyfleoedd oedd wedi'u hariannu'n allanol. Ar gyfer y cyntaf, mabwysiadwyd cyfres o feini prawf er mwyn adolygu portffolio'r Brifysgol o bartneriaethau

oedd yn bodoli eisoes a fframwaith wedi'i hadolygu ar gyfer diwydrwydd dyledus a chymeradwyo partneriaid newydd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Roedd y ffocws ar bartneriaethau a pherthnasoedd gyda gwerth strategol yn hytrach na gwerth gweithrediadol. O safbwynt cysylltiadau gyda menter, roedd monitro a chyflawni KPlau a nodwyd o dan edefyn Ariannu Arloesi Ymchwil Cymru a deilliannau a chanlyniadau y cytunwyd arnynt o dan Gynllun Twf Gogledd Cymru yn ddulliau pwysig o liniaru risg.

Mae'r pedwerydd parth, Strwythur sy'n Cynnal, yn ymrannu'n dri maes. Yn gyntaf, maes Pobl a Diwylliant wnaeth gydnabod risgiau allweddol o amgylch recriwtio staff o ansawdd a chynnal diwylliant a morâl positif, wedi'i liniaru gan gynllun hyfforddiant a datblygu helaeth mewnol a phecynnau deniadol wrth iddynt gael eu meincnodi yn erbyn y sector. Yn ail, cafodd y maes Ystadau ac Amgylchedd Dysgu. sydd mewn peryg o fethu â chyflawni cyfleusterau sy'n helpu i ddenu a chadw myfyrwyr, ei liniaru gan fuddsoddiad cyfredol sylweddol yng nghyfleusterau a TG y campws. Yn drydydd. thema Cynaliadwyedd Ariannol sydd ar hyn o bryd yn tra arglwyddiaethu dros y sector; mae'r Brifysgol wedi lliniaru risgiau o'r fath yn gyson drwy strategaeth o amrywio incwm, gan godi ymwybyddiaeth ariannol ymysg staff a chadw rheolaeth lem.

Mae'r adran olaf yng nghofrestr risg y Brifysgol yn ystyried ei sefyllfa gyda chyrff rheolaethol a statudol, yng nghyd-destun amgylchedd polisi sy'n esblygu. Mae'r categori risg yma yn cynnwys ffocws ar gydymffurfio gydag iechyd a diogelwch, yn ogystal â risg o fethu ag ymgysylltu'n effeithiol ar lefel sector cenedlaethol. Mae mesurau lliniaru wedi cynnwys sicrau'r rheoleiddiwr, drwy ddatganiadau sicrwydd

ffurfiol sy'n ddisgwyliedig bob blwyddyn, bod llywodraethiant cryf yn ei le mewn meysydd allweddol megis ansawdd academaidd a rheolaeth ariannol. Yn fwy anffurfiol, ymgwymerwyd ag ymgysylltu'n effeithiol gyda'r arweinyddiaeth HEFCW oedd yn ymadael a'r tîm newydd ar ran y rheoleiddiwr newydd yng Nghymru, Medr, a hynny ar lefel y Bwrdd a'r uwch dîm. Yn weithredol, llwyddwyd i gwrdd â holl ofynion cydymffurfio ac adrodd i'r amrywiol gyrff.

Yn gyffredinol, cafodd gweledigaeth a strategaeth y brifysgol eu cyflawni yn unol â'r cynllun a chafodd risgiau eu hadnabod a'u rheoli'n briodol, gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y brifysgol fel ei bod yn parhau i chwarae ei rhan yn y gymuned.

Ymgysylltiad rhanddeiliaid

Mae'r adran hon yn edrych ar y tri grŵp rhanddeiliaid nodedig, yn unol gyda Datganiad Ymgysylltu Rhanddeiliaid y brifysgol a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm a'r Adolygiad Ymgysylltu Rhanddeiliaid yr ymgwymerwyd ag ef ar ran yr wyth prifysgol yng Nghymru, wedi'i gefnogi gan HEFCW fel y rheoleiddiwr. Mae'r trosolwg hwn o ymgysylltu rhanddeiliaid ym Mhrifysgol Wrecsam yn dilyn y strwythur a argymhellir: myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol.

Myfyrwyr yw prif rhanddeiliaid y brifysgol. Undeb y Myfyrwyr yw'r corff cynrychioladol sy'n gweithredu'n annibynnol o dan ei Gyfansoddiad ei hun fe' y cymeradwyir gan ei Bwrdd Ymddiriedolwyr a Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol. Rhoddir aelodaeth ex-officio iddynt o'r tri chorff trosfwaol sy'n cymryd penderfyniadau yn y brifysgol: Y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae llais y myfyriwr hefyd yn cael ei gynrychioli ar lefel Tîm Cyfadran a Rhaglen.

Bob blwyddyn mae Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno Adroddiad Traweffaith ac mae'r Is-ganghellor yn ymateb i hyn mewn cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr dilynol. Mae'r ddogfennaeth hon yn darparu cyflwyniad i'r Undeb Myfyrwyr a'r gwasanaethau a ddarperir, y strwythur staffio ac amlinelliad o'r cytundebau sydd yn eu lle rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y cytundeb perthynas, a adolygir yn flynyddol, sy'n anelu i ddarparu cyfeiriad clir ar gyfer y sefydliad a'r egwyddorion y maent yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Yn yr adroddiad 2023/24, argymhellodd Undeb y Myfyrwyr a fyddai'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried tri mater, a fyddai wedi cael eu dwyn ymlaen fel ystyriaethau allweddol i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol mewn trafodaeth gydag Undeb y Myfyrwyr. Un oedd amseru'r seremonïau graddio, nad ydynt ar hyn o bryd yn hwyluso presenoldeb i'r holl raddedigion. Mater arall oedd safon y wifi, a oedd yn fod i gael ei wella dros yr haf. Y trydydd pwynt, yr oedd gofyn am ddatrysiad mwy hirdymor iddo, oedd argaeledd llety myfyrwyr ar y campws ac yn fwy cyffredinol yn yr ardal.

Fe wnaeth staff yn y brifysgol alluogi gwireddu ei gweledigaeth a'i strategaeth gan unwaith eto wneud cyfraniadau anhygoel eleni. Mae'r brifysgol yn ymgysylltu gyda'i staff drwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys grwpiau ffocws, cyrff sy'n cynrychioli staff, cynadleddau a gweithdai. Cynigir amrywiaeth gyfleoedd datblygu staff bob blwyddyn, ar lefel y brifysgol gyfan neu adran leol yn ogystal ag yn allanol.

Mae'r gweithgareddau hyn yn disgyn i dair prif wythien: hyfforddiant gorfodol a gynigir ar-lein megis ar gyfer iechyd a diogelwch a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;

ymchwil a datblygiad academiaidd, cefnogi staff i gwblhau eu PhDau neu Dystysgrifau Ôl-raddedig mewn Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch; rhannu arfer da megis drwy staff mewnol cynadleddau a gweithgareddau rhwydweithio. Yn ystod 2023/2024, cyflawnwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu'r staff gyda'r iaith Gymraeg. Cwblhaodd sawl aelod o staff eu modiwlau Cymraeg Gwaith a chafwyd cyfranogiad ardderchog mewn cyfres o sesiynau Coffi a Chlonc ar draws ein campwsau i gyd.

Mae gan y Brifysgol Dîm Datblygiad Academiaidd gwirfoddol ffyniannus sy'n dwyn ynghyd academyddion a gweithwyr proffesiynol arweiniol mewn meysydd megis dysgu digidol, cefnogi dysgu traws-sefydliadol a datblygu addysgu a oedd wedi'u cysylltu gyda blaenoriaethau strategol. Roedd y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial a'i oblygiadau, arfer da Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn addysgu; gwneud yn fawr o gyfleoedd dysgu digidol.

Fel rhan o ymrwymiad yr ymgymeryd ag ef gan y sector Prifysgolion yng Nghymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, parhaodd y Brifysgol ar ei thaith tuag at cyflawni'r Siarter Cydraddoldeb Hil (REC). Trefnwyd amrywiaeth o wahanol hyfforddiant a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, wedi'u seilio ar waith grŵp llywio mewnol a grŵp cynghori. Ymgymeryd â gwaith casglu data sylweddol er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae partneriaid allanol yn hanfodol ar gyfer sicrhau perthnasedd a sylweddoli gwerth y brifysgol o ran gyrru llwyddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y brifysgol. Mae gan y brifysgol genhadaeth ddinesig gref, sy'n



gwneud gwaith trawsnewidiol a thrawsdoriadol gydag awdurdodau lleol, cyrff iechyd ac addysgwyr eraill yn y rhanbarth. Mae hyn yn gwneud y brifysgol yn un o'r 'Arweinwyr Lle' yn ein cymuned, gan ehangu ein partneriaethau, bod yn sail i fudd cymdeithasol ar darparu cyfleoedd dinasyddiaeth rhagweithiol i fyfyrwyr a staff sy'n cael effaith gwirioneddol. Yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu, fe gynhaliodd y brifysgol weithdai cyhoeddus gyda siaradwyr amlwg ar bynciau ymgysylltu dinesig megis sut i rannu meddyliau ar ddata iechyd cyhoeddus yn llwyddiannus.

Fel aelod allweddol o Bartneriaeth Porth Wrecsam, parhaodd y brifysgol i chwarae rhan hanfodol yn llywio cynlluniau ar gyfer ailddatblygu ardal Ffordd yr Wyddgrug, lle mai'r prif gampws wedi'i leoli. Mae hwn yn gyfochrog â chae pêl-droed y Cae Ras, cartref Clwb Pêl-droed Wrecsam. Yn ychwanegol at ddatblygu'r Cae Ras, mae cynlluniau'n gynnwys hwb trafndiaeth wedi'i foderneiddio, gan adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn adfywio'r ardal a'r amlygrwydd eithriadol o gadarnhaol sydd wedi dod i Wrecsam yn

dilyn llwyddiannau'r tîm pêl-droed o dan ei berchnogion newydd, Americanaidd. Mae plattfformau a rhwydweithiau rhanbarthol eraill y mae'r Brifysgol wedi cyfrannu atynt a chael budd ohonynt yn cynnwys: y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Grŵp Arweinwyr Dinesig Wrecsam; Cynghrair Merswy Dyfrdwy, Tŷ Pawb, Gweithwyr Proffesiynol Busnes Wrecsam a'r Siambr Fasnach.

Cafwyd rhwydweithio gyda llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar sawl lefel, gan gynnwys trafodaethau gydag aelodau o'r Senedd, Aelodau Senedd Cymru a gweision sifil hŷn. Roedd pynciau'n gynnwys rhaglen datblygu cyfalaf y brifysgol, lles myfyrwyr, recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a thraweffaith polisïau'r llywodraeth. Cafwyd rhyngweithio gyda rhanddeiliaid allanol ar lefel rhaglen academiaidd a gwasanaethau proffesiynol drwy gydol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar anghenion sgiliau, adolygu a datblygu'r cwricwlwm, cyfleoedd ymchwil a chyflogadwyedd graddedigion. Roedd y cwmpas ar gyfer ymgysylltu o'r fath yn cynnwys cyflogwyr o fewn y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector, plattfformau cymunedol a chyrrff cyhoeddus.

Adroddiad blwyddyn ariannol 2023/24 - adolygiad gweithrediadol ac ariannol

Dychwelyd i Warged

Unwaith eto, yn y flwyddyn ariannol 2023/24 gwelwyd y Brifysgol yn wynebu'r her o orfod dod i ben gyda llai o fyfyrwyr yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r cynllun cychwynnol amcangyfrifedig y cynlluniwyd ar ei gyfer o safbwynt myfyrwyr israddedig llawn amser o gartref a niferoedd myfyrwyr ôl-raddedig, ynghyd â gostyngiad o ran incwm gan gydweithredwyr y DU. Cafodd y gostyngiadau hyn eu gwrthbwyso gan nifer uwch na'r disgwyl mewn prentisiaethau gradd, Prifysgol Wreccsam Ar-lein, myfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol ac incwm o bartneriaid addysg drawsffurfiol (TNE).

Mae'r her ar draws y sector yn parhau i fod yn seiliedig ar y gostyngiad mewn carfannau Rhyngwladol, yn rhannol o ganlyniad i bolisi'r llywodraeth sy'n rhwystro myfyrwyr rhyngwladol rhag dod â dibynyddion i'r DU, a deddfwriaeth sy'n gofyn am drothwy enillion uwch cyn y gall myfyrwyr fod yn gymwys ar gyfer visa gweithio ôl-astudio, ynghyd â'r pwysau arferol o gostau cyflog cynyddol ond ffioedd dysgu israddedig statig.

Mae incwm o ffynonellau eraill gan gynnwys llog a enillwyd ar fuddsoddiadau ariannol a'r penderfyniad i beidio â chymryd unrhyw fenthyciadau pellach er mwyn cefnogi Campws 2025 hefyd wedi helpu i leihau traweffaith y lleihad mewn rhai ffynonellau incwm dysgu ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (SOCIE).

Cwblhawyd y broses o waredu ased tir dros ben a gynlluniwyd i ddod i ffrwyth yn 2022/23 ond a gwblhawyd yn y pen draw yn gynnwr yn 2023/24 gan adael y Brifysgol mewn sefyllfa gwarged net sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.

Parhaodd y cyfan o is-gwmnïau'r Grŵp i weithredu, gyda'r ddau is-gwmni cyhoeddus (Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Glyndwr Innovations) yn parhau i fasnachu mewn amgylchiadau anodd am resymau gwahanol. Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn parhau i weithredu yn ystod cyfnod lle mae cyllidebau addysg o dan bwysau, ac mae'n parhau i redeg eu gweithrediadau oddi ar y grant Cronfa Ffyniant Gyffredin llwyddiannus sydd wedi dechrau.

Mae Glyndwr Innovations wedi cael problemau yn denu staff cymwysedig, profiadol mewn maes arbenigol tra'n parhau i ennill contractau sylweddol gan gynnwys un ar gyfer €1.5m gyda'r European Southern Observatory. Er gwaethaf hyn, mae dau o'r tri is-gwmni wedi llwyddo i gynhyrchu gwarged gyda'r llall yn parhau mewn diffyg, ond gyda chefnogaeth lawn y Brifysgol fel ei brif endid.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu'r cynnig Addysg Uwch i'w myfyrwyr drwy gyfuniad o ddysgu o bell ac ar y campws. Roedd y cyfan oll o dan yr amodau oedd yn ofynnol o fewn y Fframwaith Dysgu Gweithredol a ddatblygwyd gan y Brifysgol.

Nodweddwyd y flwyddyn ariannol ym Mhrifysgol Wrecsam gyda rheolaeth cost solet barhaus er mwyn sicrhau lefel derbyniol o berfformiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna gynnydd sylweddol wedi bod yn erbyn cost dyled gwael gan adlewyrchu'r heriau sydd wrth gasglu dyled myfyrwyr sy'n perthyn i gyfnod COVID ynghyd â chynnydd mewn costau eiddo a dibrisio wrth i asedau barhau i gael eu cynhyrchu sy'n gysylltiedig gyda gwaith cyfalaf Campws 2025.

Fe wnaeth y Grŵp Prifysgol ddal lwyddo i dyfu cyfanswm eu hincwm i £62.2m, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol (£50.9m). Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd ffynonellau ffioedd dysgu gwell - yn arbennig felly yn ystod ail flwyddyn y contract nyrsio a iechyd perthynol HEIW. TNE a PW Ar-lein, wedi'i gefnogi gan incwm sylweddol o log a enillwyd drwy fuddsoddi arian wrth gefn, ynghyd â pheth incwm untro a dderbyniwyd gan grantiau ychwanegol gan y llywodraeth. Parhaodd y Tîm Gweithredol i fonitro pob ffynhonnell arian a sail costau yn ofalus. Mae'r cyfrifo pensiynau unwaith eto'n cyflwyno addasiadau i'r canlyniad gweithredol, gyda thraweffaith costau Gwasanaeth Cyfredol LGPS eleni yn cyflwyno tâl tybiannol (anariannol) o safbwynt rhwymediaethau gwasanaeth cyfredol o £375k, sy'n ostyngiad sylweddol ar daliad y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, roedd taliad tybiannol Llog Pensiynau wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol o £181k oherwydd sefyllfa gwared y gronfa bensiynau.

O ystyried sefyllfa bresennol y cyfraddau llog a welwyd ar draws y flwyddyn, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn y sefyllfa ffodus o beidio â bod ag unrhyw fenthyciadau ar y fantolen ac mae wedi parhau i gael budd o fuddsoddiad tymor byr o gronfeydd derbyniadau cyfalaf gwared er mwyn darparu rhyw £1.5m o log a enillwyd o fewn y flwyddyn.

Mae'r cynnydd mewn ffioedd israddedig i £9250 wedi cael ei roi ar waith ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd o flwyddyn academaidd 2024/25 felly cafodd yr holl gynnydd o ran costau ei draflyncu naill ai drwy gynnydd yn niferoedd myfyrwyr, twf mewn meysydd cynhyrchu incwm eraill, neu reoli/lleihau costau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i fabwysiadu'r strategaeth hon, ac yn 2023/24 gwelwyd twf parhaus yn rhaglenni'r Cynllun Addysgiadol Cenedlaethol Trawsfurfiannol, ynghyd â chynnydd pellach yn nifer y Myfyrwyr Rhyngwladol ac incwm cysylltiedig, er y dylid nodi y bu lleihad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a ymrestrodd; tuedd sy'n parhau i mewn i 2024/25. Roedd yr incwm o Ffioedd Rhyngwladol ar gyfer y flwyddyn yn £17.6m. Bydd y mentrau amrywio ffioedd dysgu yn parhau i ehangu mewn ffordd sy'n cael ei rheoli a'i mesur yn 2024/25 o dan arweinyddiaeth newydd yn y Brifysgol.

Sefydliad Cynaliadwy

Mae'r paragraffau canlynol yn dangos sut mae'r Brifysgol wedi cynnal safle ariannol positif drwy gynhyrchu gwargedau'n gyson. Mae'r strategaeth ariannol ar gyfer PW yn hyrwyddo amrywio ffynonellau incwm o ystod o gynigion addysgiadol. Mae siâp a graddfa'r cwricwlwm yn seiliedig nid yn unig ar faterion academaidd ynghylch ansawdd, addysgeg a dengarwch, ond hefyd o safbwynt ariannol sicrhau galw digonol er mwyn creu incwm o gyfraniadau ffioedd dysgu er mwyn cwrdd â gofynion cyffredinol sefydliad cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gwared ddigonol er mwyn caniatáu buddsoddi arian mewn adnoddau addysgu a dysgu a seilwaith. Mae cadw at y strategaeth ariannol, ac yn arbennig cynhyrchu arian a phrif ddangosyddion perfformiad eraill yn cael eu hadrodd arnynt yn rheolaidd i'r tîm rheoli a'r llywodraethwyr drwy'r pecyn adrodd misol ar gyfer gwybodaeth fusnes.

Ymysg y risgiau allweddol sy'n cael eu monitro'n rheolaidd mae prif ddangosyddion perfformiad ariannol (gweler isod) sy'n canolbwyntio ar arian a chynaliadwyedd.

Mae'r cynlluniau a blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu cyflawni drwy'r gynllun Campws 2025 y Brifysgol ac mae gwaith yn parhau i ddigwydd ar gyfer adnewyddu a chreu cyfleusterau newydd drwy wneud cais am grantiau allanol a defnyddio arian wrth gefn mewnol er mwyn darparu cynlluniau gwella cyfalaf o fewn y cynllun lefel uchel.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac o'r herwydd mae yna weithgareddau sydd heb fod yn greiddiol ac eitemau anariannol sy'n dylanwadu ar y warged/diffyg a gofnodwyd yn y datganiad incwm cynhwysfawr. Fel y'i cyflwynir yn y tabl isod mae natur yr eitemau hynny yn gyson gyda'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag y mae gwerth yr eitemau'n amrywio ar draws y blynyddoedd a thrwy hynny yn cael effaith ar warged gwaelodol sydd gan y Brifysgol.

Crynoir traweffaith y rhain yn y tabl isod:


	Blwyddyn yn gorffen 31ain Gorffennaf 2024 (£000)
Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn	5,423
Diddymu enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	(194)
Diddymu Elw ar waredu asedau sefydlog	(4,124)
Ychwanegu Trethu yn ei Ôl	45
Gwarged net yn cynnwys addasiadau pensiynau	(1,150)
Ychwanegu yn ei ôl Addasiad Cost Gwasanaeth Cyfredol Pensiynau LGPS	375
Diddymu Enillion ar Log LGPS	(181)
Gwarged Weithredol Net	(1,344)

Y gwarged gweithredu net sy'n cynrychioli gwir fesur o'r agweddau ariannol 'y gellir eu rheoli' o'r gweithgaredd gweithredu o fewn y Brifysgol a'r Grŵp.

Proffil Incwm a Gwariant Hanesyddol

	2024 £000's	2023 £000's	2022 £000's	2021 £000's
Cyfanswm yr incwm academaidd	55,140	43,396	41,480	42,001
Cyfanswm yr incwm anacademaidd	7,088	7,503	5,726	5,051
Cyfanswm Incwm Gros	62,228	50,899	47,206	47,052
Cyfanswm Costau Cyflogau heb gynnwys FRS18 addasiadau pensiwn LGPS	(30,560)	(27,431)	(25,180)	(22,478)
Cyfanswm Costau Heb fod yn Gyflog	(30,324)	(24,848)	(21,308)	(20,625)
Cyfanswm gwariant heb gynnwys FRS17 addasiadau pensiwn LGPS	(60,884)	(52,279)	(46,488)	(43,103)
Gwarged Weithredol /(Diffyg)	1,344	(1,380)	718	3,949
Addasiadau Pensiwn Tybiannol LGPS FRS17	(375)	(839)	(2,481)	(2,120)
Llog a Enillwyd ar Bensiwn Tybiedig LGS FRS17	181	-	-	-
Amhariad ar asedau	-	-	-	(98)
Elw/(colled) ar waredu ased sefydlog	4,124	17	5,999	(3)
Elw/(colled) ar waredu dyledwr tymor hir	-	-	642	-
Treth	(45)	(50)	(40)	(20)
Gwarged Pensiwn Net / (Diffyg)	5,229	(2,252)	4,838	1,708

Dadansoddiad Incwm




Cyfanswm incwm grŵp wedi cynyddu i £62.2m (2022/23 £50.9m) Roedd yna gynnydd parhaus mewn incwm Ffioedd Dysgu o £37.1m yn 22/23 i £47.8m yn 2023/24, yn bennaf yn berthnasol i garfan ail flwyddyn o fyfyrwyr oedd wedi ymrestru ar gyrsiau Nyrso ac lechyd Perthynol wedi'u hariannu gan Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC).

Grantiau cyrff ariannu a sianelwyd drwy Medr (yn flaenorol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)) oherwydd grantiau untro at bwrpas penodol. Mae incwm ymchwil wedi lleihau er y bydd nifer o grantiau UKRI cyffrous yn dechrau gweld lefelau cynyddol o incwm yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae prif ffynonellau refeniw'r Brifysgol yn parhau i ddeillio o ffioedd dysgu a chontractau addysgol gan ddarparu 77% o'r Cyfanswm Incwm, sy'n gynnydd o'r sefyllfa yn 2022/23 (73%), wedi'i achosi gan y twf mewn incwm o'r contract AaGIC a Ffioedd Myfyrwyr Rhyngwladol.

Gwariant Grŵp




Mae prif wariant Prifysgol Wrecsam ar addysgu ac ymchwil, ond hefyd mae'n gwario arian ar amrywiaeth o feysydd eraill sydd o fudd i fyfyrwyr ac sy'n eu cefnogi gan wella profiad myfyrwyr.

Undeb Myfyrwyr Wrecsam: Cyfrannodd y Brifysgol £485,000 fel grant bloc yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu i gefnogi rhediad Undeb y Myfyrwyr.

Costau ychwanegol untro ar gyfer 2023/24: Nod y Brifysgol yw dim ond gwario ar lefelau sydd o fewn i'r incwm y mae wedi'i gynhyrchu yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw eitemau untro anarferol i'w hadrodd yn 2023/24.

Buddsoddiad Cyfalaf



Mae'r Brifysgol wedi parhau gyda'i chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer Campws 2025 yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd grant cyfalaf Medr (HEFCW yn flaenorol) er mwyn ariannu gwelliannau campws sy'n berthnasol i'r Ardal Gwyddoniaeth a Pheirianeg fydd yn parhau yn ystod 2024/25.

Mae'r gwaith adeiladu cam 2A yn yr Ardal Arloesi Iechyd ac Addysg (HEIQ) wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn gyda datblygiadau pellach cam 2B gan gynnwys codi adeilad a godir yn bwrpasol sy'n cynnwys cyfleusterau technegol o'r radd flaenaf er mwyn cefnogi'r Ganolfan Efelychu Gofal Iechyd a gwelliannau i ofodau addysgu a dysgu sydd eisoes wedi'u gwneud ar gampws Heol Cripsin, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar gyfer Canolfan Fenter, Peirianeg ac Opteg (EEOC) ar Gampws Plas Coch yn ail hanner y flwyddyn academaidd gyda gwaith yn parhau yno ac ar Gampws Llaneurgain yn 2024.25. Mae £11.7m o'r gwaith yma wedi'i ariannu gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda chyfraniad o £1.7m i'w wneud gan y Brifysgol.

Cwblhawyd gwerthiant safle Heol y Deon o fewn y flwyddyn ariannol gan arwain at elw o fewn blwyddyn wrth waredu ased gwerth dros £4.1m.

Bydd y Bwrdd yn parhau i roi derbyniadau cyfalaf ar waith, ochr yn ochr gyda grantiau ac adnoddau mewnol ar gyfer ail-fuddsoddi er mwyn cyflawni'r rhaglen Campws 2025.

Llif Arian a Hylifedd

Gwelwyd balansau diwedd blwyddyn o £24.1m oedd y tu ôl i'r targed cyllideb gwreiddiol. Gellir priodoli'r amrywiad hwn i'r lleihad mewn taliadau ariannol a dderbyniwyd mewn perthynas â myfyrwyr rhyngwladol a ddechreuodd ym mis Mehefin 2024 yn ogystal ag adolygiadau i amseru cynlluniau cyfalaf a hawliadau grantiau. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys arian wrth gefn sydd wedi cronni o wargedau'r blynyddoedd blaenorol ochr yn ochr â derbyniadau cyfalaf o waredu asedau a hefyd y rhagdaliadau net anarferol o weithgaredd cyfredol.

Mae'r Brifysgol wedi paratoi rhagolygon llif arian misol manwl ar gyfer y cyfnod wedi diwedd blwyddyn 23/24 yn rhedeg at 31 Gorffennaf 2026 ac mae o'r farn y bydd ganddi adnoddau ariannol digonol a digonedd o hylifedd yn ystod y cyfnod er mwyn gallu rheoli ei busnes a'r gweithrediadau sydd wedi'u cynllunio. Mae'r rhagolygon hyn yn dynodi llif arian negyddol dros y cyfnod oherwydd cynnydd mewn cynlluniau cyfalaf i adeiladu adeiladau Porth Dysgu a HEIQ sy'n cael eu hariannu o arian wrth gefn nid arian grant cyfalaf allanol. Er mwyn cwblhau rhaglen Campws 2025 mae'n bosib y bydd angen benthyciadau pellach yn y dyfodol, ond nid o bosib yn 2024/25.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (Mantolen)

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cael ei gryfhau gyda'r Cyfanswm Asedau Net sydd erbyn hyn yn rhyw £66m (£60.6m yn 22/23). Mae Asedau Sefydlog wedi cynyddu yn dilyn cyfalafiaeth a dechrau ar nifer o brosiectau allweddol yn ystod y flwyddyn megis HEIW 2a, gwaith ar Ardal Gwyddoniaeth a Pheirianeg, EEOC a'r Academi Arloesi Seibr ym Mhlas Coch.

Pensiynau

Mae'r Grŵp yn Cyfranogi mewn tri chynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS), Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Cronfa Bensiwn Clwyd (LGPS) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Nid yw hi wedi bod yn bosib i adnabod rhan y sefydliad o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol mewn perthynas â'r cynlluniau TPS ac USS; ac o'r herwydd fe'u cyfrifir fel pe baent yn gynlluniau cyfrannu wedi'u diffinio. Cafodd cynllun adfer diffyg ei roi yn ei le fel rhan o werthusiad 2020, oedd yn gofyn am daliadau ychwanegol gael eu gwneud dros y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2024. Nid oedd yn ofynnol bellach i'r sefydliad wneud cyfraniadau adfer diffyg o 1 Ionawr 2024 ac yn unol â hynny fe'i rhyddhawyd o'r ymrwymiad oedd yn weddill i'r cyfrif elw a cholled.

Mae symudiadau o fewn y LGPS yn cynnwys taliadau tybiannol ychwanegol o £375k mewn perthynas â chostau gwasanaeth cyfredol a amcangyfrifir sydd wedi eu gwrthbwysu gan gynydd mewn llog o £189k.

Unwaith eto mae'r Brifysgol yn canfod ei hun yn y sefyllfa ffodus y flwyddyn ariannol hon, lle mae gwerth teg asedau cynllun o dan y LGPS yn fwy na gwerth presennol o rwymedigaethau o ran buddion. Mewn geiriau eraill, mae'r cynllun mewn gwaged, yn hytrach na bod mewn sefyllfa, fel cynt, lle rhoddwyd cyfrif am ddiffyg yn y pensiwn yn hanesyddol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn cyfraniadau ar draws y cyfnod o 3 blynedd gan ddechrau ar 1 Awst 2023. Nid oes balans gwaged wedi'i adrodd amdano yn y fantolen yn dilyn asesiad manwl o'r sefyllfa yn seiliedig ar werthusiadau actiaraidd - mae hyn yn unol gyda'r dull gweithredu ar gyfer 2022/23 ac yn fras, mae hefyd yn unol gyda'r dull a ddefnyddiwyd ar draws y sector.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIau Ariannol)

Mae gan y Brifysgol strategaeth ariannol sy'n cynnwys ystyriaeth i'r lefel o arian (a gan hynny gwarged wedithredol) sydd ei angen ar gyfer gweithrediadau cynaliadwy. Mae nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u cynnwys yn y strategaeth ac:

Mae'r KPI'au a ddefnyddir o fewn y trefniadau adrodd ym Mhrifysgol Wrecsam yn fesurau gweddol gyffredin gafodd eu mabwysiadu gan nifer o sefydliadau AU. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa KPI'au i'w defnyddio, roedd y broses o benderfynu yn ofalgar o natur y sefydliad hwn (sy'n cael ei arwain gan ddysgu yn hytrach nag ymchwil). Adroddir ar y KPI'au hyn drwy gydol y flwyddyn yn erbyn y gyllideb a hynny i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr ac fe'u crynhoir yn y tabl isod ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

	Gwirioneddol	Cyllideb	Amrywiad
	£'000	£'000	£'000
Gwarged Weithredol /(Diffyg) YTD (£000)	1,344	1,105	239
Gwarged Weithredol/ (Diffyg) fel % o gyfanswm yr incwm	2.2%	1.9%	0.3%
Gwarged Net/ (Diffyg) YTD (£000)	5,229	105	5,124
Gwarged Net/ (Diffyg) fel % o gyfanswm y galwadau	8.4%	0.2%	8.2%
Dyddiau datodiad	152.7	176.5	(23.8)
Cynhyrchu Arian (EBITDA) (£000)	2,890	2,416	474
Balans yn y banc (£000)	24,118	26,793	(2,675)
Costau Staff fel % o'r Incwm Gros	49.1%	49.9%	0.8%

Roedd y mesurau Gwarged Weithredol a Gwarged Net yn bositif yn erbyn cyllideb sydd wedi arwain at welliant mewn mesur EBITDA.

Roedd arian yn y banc yn brin yn erbyn y targed oherwydd amseru gwariant ar brosiect cyfalaf allweddol a'r gohiriad yn hawlio arian gan y corff ariannu ynghyd â llai o arian yn cael ei gadw a llai o daliadau ffioedd dysgu ar ddechrau'r cwrs gan fyfyrwyr rhyngwladol mewn perthynas â charfan 2024. Bydd y sefyllfa o ran arian yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod 2024/25.

Fe wnaeth dyddiau datodiad hefyd ddisgyn yn brin o'r KPI targed. Mae hwn yn fesur sy'n dangos faint o arian sydd gan y Brifysgol mewn perthynas â'i halldaliadau. Mae'r diffyg yn cael ei yrru gan y diffyg mewn arian fel y nodwyd isod a'r cynnydd mewn gwariant. Er bod gwariant wedi cael ei wrthbwysu gan gynnydd mewn incwm, mae'r diffyg yn y balans ariannol yn golygu bod hyd yr amser y mae'r Brifysgol yn gallu cwrdd â'i gwariant o'i asedau hylifol wedi lleihau o'r targed y cynlluniwyd ar ei gyfer.

Fe wnaeth costau staff fel canran o'r incwm gros hefyd wella yn erbyn y gyllideb oherwydd rheolaeth ofalus barhaus o strwythurau'r gweithle a chostau cysylltiedig.

Rhagolygon Ariannol

Yn ystod 2024/25 mae'r Brifysgol wedi cynyddu ei ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr presennol o gartref sy'n dychwelyd i astudio graddau israddedig amser llawn i £9,250 yn unol gyda ffioedd yn cael eu codi mewn sefydliadau yn Lloegr yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu terfyn y ffi.

Bydd adolygiad o Strategaeth y Brifysgol yn helpu i arwain unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Ariannol, sy'n parhau i fod yn ei lle ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn a bydd yn parhau i gael ei gweithredu er mwyn gweld y Brifysgol yn parhau gyda iechyd ariannol cynaliadwy ac yn parhau i fod yn cyflawni ei chenhadaeth bwysig yn amserol.

Prif amcanion ariannol y strategaeth yw:

1. Hyrwyddo ac amddiffyn Cynaliadwyedd Ariannol hirdymor y Brifysgol.
2. Cynnal Solfedd.
3. Hyrwyddo Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian.
4. Sicrhau safonau uchel o Uniondeb ac Atebolrwydd ariannol.
5. Cynyddu gwerth ac amrywiaeth Incwm o ffynonellau cyhoeddus, preifat a busnes.
6. Sicrhau bod y Risgiau Ariannol sy'n gysylltiedig gyda gweithgareddau cyfredol a chyfleoedd newydd yn cael eu cyfathrebu a'u rheoli'n briodol.

7. Cynnal dull eglur a chadarn o Gynllunio Ariannol, gwneud penderfyniadau a Dyrannu Adnoddau.

8. Darparu Dulliau Talu diogel, effeithiol ac effeithlon ar draws amrywiaeth o gwsmeriaid.

Mae'r cyfriflenni ar gyfer 2023/24 yn dangos bod y Brifysgol wedi gwario 49% o'i hincwm ar gostau staff uniongyrchol (ac eithrio pensiynau), sy'n ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol (54%).

Mae hyn fymryn ar y blaen i'r cyfraddau arferol o fewn y sector a thargedau'r Strategaeth Ariannol ac mae'n cael ei yrru gan y cynnydd mewn incwm o ffioedd dysgu. Fodd bynnag, drwy barhau i sicrhau bod trosiant yn tyfu a bod costau yn cael eu rheoli'n effeithiol, mae hyn yn darparu sail gadarn ariannol i'r brifysgol, gan ei galluogi i gynllunio ar gyfer cynnydd mewn gwarged gyfrifo a gwarged ariannol er mwyn darparu'r cyllid ar gyfer y rhaglen ddatblygu uchelgeisiol a nodwyd yn strategaeth Campws 2025.

Er mwyn sicrhau ariannu ar gyfer datblygu ac er mwyn darparu gwrthbwynt i'r ansicrwydd sy'n codi o'r trefniadau ffioedd cyfredol, mae'r Brifysgol wedi bod yn cyflawni ei chynlluniau uchelgeisiol i dyfu ac amrywio ei sail incwm drwy ddatblygu rhaglenni academaidd newydd a buddsoddi mewn gwaith ymchwil a gweithgareddau arloesi, gyda'r ddau i gael eu darparu drwy ystadau a seilwaith wedi'u hadfywiogi ac wedi'u hadfywio ochr yn ochr â rhaglen academaidd wedi'i hadfywiogi. Ar ddiwedd blwyddyn 23/24 gwelwyd gostyngiad mewn ceisiadau rhyngwladol ac mae pob arwydd y bydd hyn yn parhau i mewn i 24/25.

Mae'r Tîm Rhyngwladol yn parhau i dargedu gwledydd gwahanol ac adnabod cyfleoedd newydd i liniaru yn erbyn y duedd hon ar draws y sector gyfan.

Yn 2024/25 bydd y trydydd carfan o fyfyrwyr yn astudio'r gyfres o raglenni iechyd perthynol HEIW a bydd gennym felly fyfyrwyr yn astudio ar y 3 lefel gan gynrychioli'r garfan lawn o lefydd wedi'u comisiynu gan HEICW.

Ar gyfer 2025/26 a thu hwnt codir y tâl ffioedd dysgu uchaf posib ar yr holl fyfyrwyr gartref sydd ar hyn o bryd yn £9,250 a fydd yn welliant ar 2024/25 lle dim ond y myfyrwyr oedd yn dychwelyd oedd yn gorfod talu'r gyfradd hon.

Y prif risgiau ac ansicrwydd

Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu'r Brifysgol sy'n parhau'n gyson gyda blynyddoedd blaenorol fel a ganlyn

- Mae recriwtio myfyrwyr o gartref a'u cadw yn parhau i fod yn faes ffocws ar gyfer y Brifysgol, gyda diffyg llety i fyfyrwyr yn profi i fod yn heriol ar draws y wlad, ond yn arbennig felly yn Wrecsam.
- Mae niferoedd ôl-raddedig dramor wedi gweld lleihad yn ystod y misoedd diwethaf yma o ganlyniad i ddeddfwriaeth llywodraeth y DU. Nid oes disgwyl y bydd y llywodraeth newydd yn gwyrdroi'r newidiadau a roddwyd ar waith yn flaenorol, ac mae hyn yn her ar draws y sector gan achosi traweffaith sy'n taro Prifysgol Wrecsam o safbwynt llai o fyfyrwyr o gartref a myfyrwyr rhyngwladol.
- Mae rheoli llif arian o fewn y flwyddyn, yn arbennig felly yn wyneb y prysuro yn y gwaith adeiladu ar gyfer Campws 2025 yn parhau i fod yn bwysig;

- Mae rheoli perfformiad ar draws endidau a lleoliadau cymhleth ac amrywiol y Grŵp a chydgordio gweithgareddau lle mae'n briodol er mwyn cyflawni enillion strategol.
- Mae perfformiad ariannol yr is-grŵp GIL a'r cyflymder y gall ddychwelyd i fod yn broffidiol yn parhau i fod yn achos pryder; ac
- Mae mae rhagor o fenthyciadau yn y dyfodol yn ofynnol er mwyn cyflawni'r prosiectau adeiladu ar gyfer datblygiad y Brifysgol yn y dyfodol o dan y rhaglen Campws 2025.

Llywodraethiant Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymrwymedig i ddeall a rheoli ei thraweffaith ar yr amgylchedd, ac mae wedi ymrwmo i ddangos arfer gorau mewn rhagoriaeth amgylcheddol a chynaliadwy drwy gyflawni ei Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2021 - 2025. Mae'r Strategaeth hon wedi helpu i atgyfnerthu a gyrru amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau yn eu blaen drwy greu diwylliant ac ethos gryfach drwy ymgysylltiad staff, myfyrwyr a'r gymuned.

Mae'r meysydd blaenoriaeth y mae Prifysgol Wrecsam wedi bod yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys:

1. Addysg ar gyfer datblygiad Cynaliadwy, sy'n sail i holl themâu strategol y brifysgol ac sy'n hanfodol er mwyn cyflawni newid diwylliannol, ar draws cymuned y Brifysgol, a gwelliannau dilynol mewn perfformiad amgylcheddol.

2. Partneriaethau ac Ymgysylltu - creu cyfleoedd lle gall unigolion a chymunedau ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad er mwyn ymgysylltu gyda datblygiad cynaliadwy a dylanwadu arno, an sicrhau etifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3. Trwy Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Campws 2025 - lleihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau gweithredol a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd naturiol drwy reoli ei hystâd a'i hadnoddau.

Yn 2023/24 mae Prifysgol Wrecsam hefyd wedi bod yn gweithio tuag at ei Llwybr i fod yn Garbon Niwtral: dogfen fframwaith strategol gyda meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y camau sydd angen i'r Sefydliad ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Yn ystod 23/24, cyflawnwyd nifer o ddeilliannau allweddol:

- Dod yn y dosbarth cyntaf yng Nghynghrair Werdd Pobl a'r Blaned, sy'n asesu holl brifysgolion y DU ar eu perfformiad amgylcheddol a moesol yn annibynnol. Mae Prifysgol Wrecsam wedi perfformio'n arbennig o dda o fewn adrannau Ymgysylltiad Staff a Myfyrwyr. polisi Amgylcheddol a Staff ac AD. Roedd Prifysgol Wrecsam hefyd yn 5ed yn y DU ar gyfer gyrfaeodd a recriwtio Moesol.
- Dyfarnwyd 'rhagoriaeth' i Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam yn y Gwobrau Traweffaith Gwydd.



- Cafodd 100% o wastraff ei ddargyfeirio o dirlenwi.
- Dyfarnwyd grant o £85k drwy Uned Ddatblygu Rhwydweithiau Gwres er mwyn galluogi i'r brifysgol benderfynu ar y datrysiad gorau ar gyfer trefniadau gwresogi yn y dyfodol ar draws y campws.
- Bu parhad yn y rhaglen o waith adeiladu i ôl-osod goleuadau LED yn nifer o'r adeiladau.
- Digwyddodd diweddariadau fesul cam i'r Systemau Rheolaeth Rheoli Adeiladu.
- Parhawyd i gefnogi partneriaeth Coedwig Wrecsam a llofnodwyd addewid Coetir Wrecsam.
- Gweithiwyd yn gydweithredol gyda phartneriaid i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys cyfnewidfa ddillad, ymgyrch gwaredu gwastraff ac Wythnos Ewch yn Wyrdd.



Gwybodaeth elusennol

Mae Prifysgol Wrecsam yn elusen gofrestredig o dan delerau Deddf Elusennau 2011 (rhif elusen gofrestredig 1142048).

Swyddfa Gofrestredig

Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AW

Bancwyr

Barclays Bank PLC
Liverpool Lord Street
Leicester
LE87 2BB

DfCC Bank PLC
No. 73/5 Galle Road
Colombo
Sri Lanka

Archwiliwr Allanol

HaysMac LLP
Thames Exchange
10 Queen Street Place
London
EC4R 1AG

Archwilwyr Mewnol

RSM LLP
Festival Way
Festival Park
Stoke-on-Trent
ST1 5BB

Datganiad Budd Cyhoeddus

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam yn Elusen Gofrestredig (rhif 1142048) yn unol gyda thelerau Deddf Elusennau 2011. Cyfeiriad cofrestredig yr elusen yw Heol yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW .

Mae aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr yn ymddiriedolwyr yr elusen ac felly mae ganddynt sylw dyladwy i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fuddiant i'r cyhoedd.

Mae'r Brifysgol yn Gorfforaeth Addysg Uwch ac o dan adran 124 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 mae ganddi'r hawl i:

- ddarparu addysg uwch;
- darparu addysg bellach; ac
- ymgymryd â gwaith ymchwil a chyhoeddi'r canlyniadau

Mae gan y Brifysgol rôl benodol mewn cymdeithas sy'n golygu ymgysylltiad dwfn gyda'i rhanbarth a'i chymuned. Mae rôl y Brifysgol yn cael ei mynegi'n eglur nid yn unig yn ei gweledigaeth a'i strategaeth a'i chenhadaeth, ond yn fwyaf arbennig yn ei holl weithredoedd.

Rydym yn ceisio darparu addysg uwch a'i yrru yn ei flaen yng ngogledd-orllewin Cymru, Cymru, y DU a thramor, drwy gyfranogiad unigolion mewn rhaglenni astudio sy'n seiliedig ar ymchwil, yn cael ei arwain gan ddiwydiant ac sy'n berthnasol yn alwedigaethol sy'n arwain at ddyfarnu graddau neu gymwysterau priodol eraill; ac ymchwil gynhwysol. Drwy ei gweithgareddau craidd, mae'r Brifysgol yn ceisio datblygu gweithwyr proffesiynol sy'n barod i ddechrau gyrfa, sy'n cefnogi ac yn cwrdd ag anghenion yr economi yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg Uwch

Mae ehangu mynediad a chyfranogiad yn rhan hanfodol o gymeriad y Brifysgol fel prifysgol sy'n arwain ar gynhwysiant cymdeithasol a symudedd cymdeithasol. Rydym yn dod â chyfleoedd addysgu uwch arloesol i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol ac mae ein graddedigion yn cyflawni deilliannau da sydd hefyd yn gallu bod o fudd i'w cyflogwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'r Brifysgol wedi'i gosod yn- 1af yng Nghymru a Lloegr am gynhwysiant cymdeithasol (The Times a Sunday Times Good University Guide 2025) ac wedi bod ar y brig am saith mlynedd yn olynol. Mae'r safle hwn yn cynnwys cyraeddiadau nodedig eraill megis:

- Y 1af yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y canran uchaf o fyfyrwyr anabl (19.1%)
- Y 4ydd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer recriwtio o Ysgolion y Wladwriaeth (98.4%)
- Y 7fed yng Nghymru a Lloegr ar gyfer myfyrwyr o'r genhedlaeth gyntaf i fynd i Brifysgol (58.3%).
- Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn denu 54.9% o boblogaeth myfyrwyr gartref o'r DU o ranbarth gogledd Cymru (Ffynhonnell: Data Myfyrwyr 22/23 HESA).

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau cyfle cyfartal ac i hyrwyddo addysg uwch. Mae amcanion y cynllun yn cynnwys darparu cefnogaeth academaidd a lles i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac ymrwymiad i wella eu profiad o addysg bellach, i ddatblygu a hyrwyddo cymuned academaidd a chymuned o fyfyrwyr cynhwysol ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwmo i ddarparu profiad myfyriwr ardderchog, i sicrhau cyflogadwyedd graddedigion ac i atgyfnerthu ymgysylltiad cymunedol. Mae perfformio yn erbyn yr amcanion hyn yn cael ei fonitro'n ofalus.

Mae myfyrwyr amser llawn a rhan amser israddedig ac ôl-raddedig yn gallu ymgeisio am fenthyciadau ffioedd dysgu ac am grantiau i helpu gyda chostau byw drwy Cyllid Myfyrwyr. Gall myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu ac anabledau, a myfyrwyr gyda phlant neu oedolion sy'n ddibynnol arnynt hefyd gael mynediad at gefnogaeth ychwanegol. Mae bwrsariaethau ar gael ar gyfer myfyrwyr meddygol a gwaith cymdeithasol drwy'r GIG a Gofal Cymdeithasol Cymru fel ei gilydd.

Mae gennym amrywiaeth o gynlluniau ar gael gan gynnwys bwrsariaethau, ysgoloriaethau a grantiau i helpu myfyrwyr i mewn i addysg uwch, gan gynnwys cronfa yn ôl disgrisiwn i helpu rhai sydd angen cymorth ariannol er mwyn parhau gyda'u hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i helpu pobl ifanc sydd mewn gofal, neu sy'n gadael gofal, ac yn darparu bwrsariaeth gadael gofal o hyd at £1000.00 y flwyddyn a phecynnau cymorth a all gynnwys llety ar y campws ar gyfradd ostyngol am eu blwyddyn gyntaf. Yn 2023/24 roedd y Brifysgol yn gallu cefnogi 13 o bobl ifanc oedd yn Gadael Gofal gyda chyfanswm ariannol o £13,50.00.

Mae ein hymrwymiad i'r Addewid Stand Alone i gefnogi Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio oddi wrth deulu, sy'n bobl ifanc yn astudio heb gefnogaeth a chymeradwyaeth rhwydwaith teuluol yn parhau i fod yn ei le ac rydym yn cefnogi myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio gyda bwrsariaeth o hyd at £1000.00 y flwyddyn. Cynorthwywyd 13 o fyfyrwyr gyda'r fwrsariaeth hon yn 2023/24 gyda cyfanswm ariannol o £13,700.00. Mae'r gefnogaeth yma

ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu yn cael ei chyfathrebu gan ein Tîm Ariannu a Chyngor Ariannol (FMAT) a thrwy ein gwaith estyn allan gydag ysgolion a cholegau; ac mae ein gwaith gyda hosteli lleol ac elusennau i'r digartref yn helpu rhai heb gefnogaeth gartref.

Rydym yn cynnal cronfa galedi myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ystod 2023/24 fe wnaeth cronfa galedi'r Brifysgol gefnogi cyfanswm o 33 o fyfyrwyr. Roedd nifer fawr o'r myfyrwyr y gwnaethom eu cefnogi yn rhai oedd wedi dangos eu bod mewn tloedi ariannol oherwydd y cynnydd parhaus mewn costau byw. Cafodd cefnogaeth ariannol ei ddarparu yn bennaf tuag at dalebau bwyd, teithio, costau gofal plant a chostau byw. Cefnogodd y Gronfa 3 myfyriwr gyda grant i fynd i'r afael â thloedi digidol yn ogystal. Roedd FMAT yn gallu adrodd a sicrhau cefnogaeth bellach drwy Gronfa Addysg Thomas Howells yn 2023/24 gyda dyraniad o £30,000.00. Bu i'r Tîm FMAT estyn allan i'r holl fyfyrwyr cymwys ym mis Tachwedd er mwyn iddynt ymgeisio am y gronfa. Derbyniodd 89 o fyfyrwyr cymwys grant taliad untro oedd yn cyfrannu tuag at gostau teithio, llyfrau ac offer.

Ymchwil

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynhyrchu ymchwil sy'n trawsnewid, gyda ffocws pellach sy'n llywio ein dysgu ac yn cefnogi gweithredoedd achosion sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn fyd-eang. Dros y 12 mis diwethaf, mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Wrecsam wedi parhau i gynhyrchu gwaith ymchwil sy'n alinio gyda Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedlaethau Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Eleni, mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Wrecsam wedi sicrhau cyllid gan gynghorau ymchwil cenedlaethol a chyrrff y llywodraeth i ddatblygu ymhellach ein themâu ymchwil Cynaliadwyedd a Iechyd a Lles.

Yn ystod y cyfnod 2023/24, mae gwaith ymchwil wedi'i ariannu gan Sefydliad Ymchwil Cyfiawnder wedi cynnwys Improvement Cymru er mwyn adolygu'r dystiolaeth gyfredol ar fodolau gofal cenedlaethol a fframweithiau sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc gydag anabledau dysgu yng Nghymru. Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACE) Cymru wedi'i ddiogelu er mwyn archwilio gwerth cefnogaeth a goruchwyliaeth cyfoedion i'w gilydd ar gyfer heddlu sy'n delio gyda sefyllfaoedd anodd a phrofiadau o drama dros eraill.

Mae Sefydliad Cyfiawnder yn gweithio'n agos gydag ymgynghoriaeth Figure 8 a sefydliadau eraill yn y DU i ymchwilio i alcohol a chyffuriau eraill, yn ystod y 12 mis mae Prifysgol Wrecsam wedi sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd. Mae rhai prosiectau yn y portffolio hwn yn cynnwys Evidence Into Action Alcohol Project, Evaluation of Bupropion a Minimum Unit Pricing. Mae Ysgol Gelf Prifysgol Wrecsam wedi parhau i weithio ar ddau brosiect sydd wedi cael eu hariannu gan UKRI er mwyn sefydlu Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol Plws er mwyn hyrwyddo newid cynaliadwy drwy'r economi ddigidol. Bydd prosiect arall sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Caergrawnt ac yn cael ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn creu Llwyfan Map Agored Cymunedol i genedlaethau'r dyfodol olrhain y trosglwyddiad gwyrdd ar Ynys Môn.

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r adeilad EEOC fydd yn cyflwyno canolfan arbenigol ar gyfer ymchwil a datblygiad, cydweithredu rhwng busnesau a datblygu sgiliau mewn opteg, ffotoneg a chyfansoddiâu fel opsiynau eraill ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu. Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Wrecsam wedi

sicrhau prosiect ymchwil consortiwm fydd yn gweithio gyda sefydliadau a phartneriaid yn y diwydiant yn y DU er mwyn archwilio synwryddion ffibr gwastad newydd. Mae'r prosiect EPSRC 2.2 miliwn gafodd ei sicrhau'n gynharach eleni yn parhau am dair blynedd, gan ddangos ein hymrwymiad i waith ymchwil cydweithredol yn y maes hwn. Mae ein hymchwilwyr Peirianeg hefyd wedi sicrhau cyllid arloesi SMART i barhau gyda datblygiad a lefel parodrwydd technegol 'Y Gwyntyll Gyflym'.

Ein lle yn y gymuned

Mae parth ymgysylltu Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol yn rhoi mynegiant i'n nod o gyfoethogi'r rhanbarth a thu hwnt, gan gefnogi a datblygu unigolion, cymunedau, diwylliant a'r economi gyda chamau sy'n cael blaenoriaeth er mwyn cyd-greu dulliau arloesol o fynd i'r afael gydag anghydraddoldeb cymdeithasol mewn partneriaeth gyda chymunedau ac arweinwyr. Mae ein gwaith yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaeth yn parhau i dyfu ac esblygu drwy ein Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd ym mis Mehefin 2024.

Mae ein Cenhadaeth Ddinesig gydweithredol wedi'i chyd-greu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, wedi'i datblygu ochr yn ochr ac mewn cydweithrediad gyda phartneriaid, unigolion a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae ein Cenhadaeth Ddinesig wedi'i gwreiddio mewn data, mewnwelediad, ymchwil ac ymgysylltu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'r pwys mwyaf yn ein cymdeithas. Yn hollbwysig, mae ein dull o weithredu wedi'i ganoli o amgylch bod yn hyblyg ac yn chwim, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn y ffordd orau bosib i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n partneriaid, megis yr argyfwng costau byw,

a'r argyfwng hinsawdd, er mwyn cyflawni newid sy'n cael effaith, yn bellgyrhaeddol ac yn seiliedig ar le. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau rydym wedi bod yn gysylltiedig â hwy, wedi eu harwain a'u galluogi ar draws y rhanbarth a thrwy ein Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig yn cynnwys:

- Gan adeiladu ar lwyddiant peilot Prifysgol y Plant Wrecsam a Sir y Fflint yn 2021/2022 fe wnaethom sicrhau dros £800,000 er mwyn gweithredu'r prosiect ar draws gogledd Cymru. Gyda'i gilydd, fe wnaeth 51 o ysgolion led-led gogledd Cymru (37 ysgol gynradd ac 14 ysgol uwchradd) yn ymgysylltu gyda'r prosiect, gyda 1,115 o bobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy'r prosiect. Derbyniodd 616 o bobl ifanc 30 awr o weithgareddau allgyrsiol gan raddio o Brifysgol y Plant Gogledd Cymru, gyda 4 seremoni raddio ar draws y rhanbarth. Mae'r gwaith hwn wedi darparu mynediad teg ar gyfer pobl ifanc ar draws y rhanbarth i adeiladu sgiliau a chyfalaf y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu model ddarparu Prifysgol y Plant Gogledd Cymru 2025/26, gan ddefnyddio canfyddiadau o'r adroddiad ymchwil (Medi 2024) i'n harwain ni.
- Yn ogystal, fel rhan o'r peilot Prifysgol y Plant Gogledd Cymru 2023/24 fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Menter Môn a Dylan's Restaurants i ddarparu Blychau Lleiant gyda chynhwysion ffres a rysetiau, i bron 900 o deuluoedd ar draws gogledd Cymru, a chan ddarparu cefnogaeth yn ystod yr argyfwng costau byw. Rydym hefyd wedi gweithio gyda 7 o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws gogledd Cymru er mwyn ddarparu Gŵyl Llesiant, gyda 8 sgwrs arddull TEDx ar bwnc iechyd meddwl a lles.

- Rydym wedi tyfu a datblygu Labordy Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru, sef gofod corfforol a rhithiol sy'n dwyn arweinwyr systemau ynghyd, a chan adeiladu capasiti a galluoedd i yrru arloesi o amgylch heriau cydweithredol. Fel rhan o Brifysgol y Plant Gogledd Cymru, rydym wedi darparu rhaglen o ddsbarthiadau meistr i dros 110 o fynychwyr er mwyn adeiladu gwybodaeth, llywio arfer a dwyn adnoddau ynghyd gyda phartneriaid led-led y rhanbarth. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein rhwydwaith Cymuned i'r Gymuned (C4C) fel rhan o Brifysgol y Plant Gogledd Cymru, gan gynnal amrywiaeth o gynadleddau a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Mudiad 2025 ac Archwilio Cymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhwydwaith C4C, ac rydym ar hyn o bryd yn cynllunio Cynhadledd Arweinyddiaeth Systemau ar gyfer gaeaf 2024 ac yn cyd-lunio rhaglen dosbarth meistr 2024/25.
- Rydym yn parhau i ddatblygu y North Wales Insight Partnership, sef partneriaeth o bobl a sefydliadau sy'n datblygu ac yn darparu prosiectau arloesol ar draws y rhanbarth. Mae NWIP wedi ei gynnwys mewn astudiaeth achos OECD byd-eang, ac wedi bod yn gatalydd ar gyfer nifer o prosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Er enghraifft, yr Hwb Amlddiwylliannol yn Tŷ Pawb, prosiect naratifau cymunedol sydd wedi'i gyd-gynhyrchu, dadansoddi data'n cael ei arwain gan ddinasyddion ar newid hinsawdd, a rhaglen Arweinwyr y Dyfodol.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull o ddod yn sefydliad sy'n wybodus am Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod TrACE. Mae hyn wedi cynnwys rhoi 30 o fyfyrwyr ar waith i fod yn 'Hwyluswyr

TrACE' led-led y brifysgol, gan gynhyrchu Adroddiad Gwerthusiad Prosiect TrACE mewn partneriaeth gyda Hwb ACE Cymru, cynnal y gweithdy rhyngweithiol 'Dod yn Ymwybodol o Drawma' i dros 250 o fynychwyr a chyd-gynhyrchu 'Canllawiau ar gyfer Polisi ac Arfer sy'n Wybodus am Drawma' ar gyfer Prifysgol Wrecsam. Mae ein gwaith TrACE hefyd wedi cael ei drafod yng Ngynhadledd Sefydliad Iechyd y Byd Ewropeaidd yn 2023, ac roedd yn astudiaeth achos i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gweithio mewn partneriaeth gyda Trauma Informed Design Society sydd wedi'i lleoli yn yr Unol Daleithiau er mwyn datblygu adnodd amgylchedd corfforol ar gyfer darparwyr AU, a bydd yn cynnal ein Cymuned Ymarfer TrACE 2024 ym mis Tachwedd.

- Datblygu ein dull adrodd straeon ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi sicrhau ariannu cydweithredol gan Rwydwaith Arloesi Cymru i ddatblygu dealltwriaeth a rennir ynghylch adrodd straeon a'i roi ar waith fel modd o sicrhau bod llais dinasyddion yn rhan o iechyd a lles. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar y prosiect 100 o Straeon-ac Enghraifft Comisiwn Bevan, sydd wedi cefnogi dealltwriaeth bellach o brofiadau o ofal iechyd yn y rhanbarth drwy'r dull adrodd straeon.
- Sicrhau bod gwaith ymchwil, traweffaith a gwerthusiad yn sail i'n cenhadaeth ddinesig. Rydym wedi penodi Cynorthwy-ydd Ymchwil ac wedi datblygu Cynlluniwr Traweffaith Ymchwil er mwyn ein galluogi i gynllunio 3 astudiaeth achos ar gyfer REF 2029. Rydym hefyd wedi bod yn rhan o nifer o geisiadau ymchwil, ac yn gweithio'n aml gyda phartneriaid er mwn cyd-gynllunio

a chydweithio ar waith ymgysylltu ymchwil wedi'i gymhwyso. Er enghraifft, y Llwyfan Map Cyhoeddus gwybodus am TrACE yn Ynys Môn, sy'n cael ei arwain ar y cyd gan Brifysgol Wreccsam, Prifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Caerdydd. Rydym hefyd wedi arwain gwaith ymgysylltu Bwrdd Tref Wreccsam yn y 'Cwestiwn Mawr'- gan ymgysylltu gyda miloedd o aelodau o'r gymuned, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda WeMindTheGap er mwyn ymgysylltu gyda phobl ifanc yn 'Sgwrs Fawr' Sir y Fflint (gweler yma am wybodaeth am 'Sgwrs Fawr' Wreccsam).

- Ymgysylltu gyda nifer o sefydliadau a chyrff allanol er mwyn to sicrhau bod partneriaid yn ymwneud ymhellach gyda'n gwaith cenhadaeth ddinesig. Er enghraifft: Y Pennaeth Polisi Cyhoeddus, Nina Ruddle, yw Cadeirydd newydd Mudiad 2025, ac maent wedi lansio eu 'Blwyddyn Berthyn' ar gyfer y flwyddyn 2025 yn swyddogol. Mae Nina hefyd ar y Bwrdd Ymgynghorol ar gyfer UKRI LPIP a LPIP UKRI Cymru. Yn ogystal, Nina yw is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, mae'n aelod o Grŵp Strategaeth y Celfyddydau mewn Strategaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn ymgynghorydd ar gyfer Fforwm Rhanddeiliaid Llesiant Cenedlaethau'r Dygodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac mae ar y Bwrdd Cynghori ar gyfer Rhaglen Lluo Llefydd ar gyfer Lles yng Nghymru, wedi'i arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Rydym wedi arddangos ein gwaith yn fewnol ac yn allanol drwy ein digwyddiad Arddangosiad Cenhadaeth Ddinesig ym mis Mehefin a Chynhadledd Ymgysylltu Prifysgol Wreccsam. Rydym hefyd wedi datblygu sut rydym yn cyfathrebu ein

gwaith yn ddigidol, drwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol, ac mewn cyfres o bodlediadau er mwyn rhannu ein gwaith cydweithredol ac arloesol.

Datblygu galluedd ein staff

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu, datblygu, ymgysylltu a chadw'r staff gorau. Drwy roi ein Strategaeth Pobl ar waith byddwn yn ymdrechu i ddarparu staff gyda'r cyfleoedd perthnasol i ddatblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol yn fwriadol er mwyn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at weledigaeth ac amcanion strategol y Brifysgol. Mae staff academiaidd yn cyfrannu at addysgu a gweithgarwch ymchwil/ysgolheigaidd er mwyn datblygu eu hymarfer proffesiynol. Mae staff hefyd yn cydweithredu gydag academyddion mewn prifysgolion eraill o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

Enghreifftiau eraill o ddarparu budd i'r cyhoedd

Ynystod2023/24fewnaethombarhauiddarparu amrywiaeth eang o fentrau a ddarparwyd ar gyfer budd ehangach y cyhoedd y tu allan i'r gweithgareddau hynny yr ymgymeryd â hwy drwy ein gwaith Cenhadaeth Ddinesig. Roedd y rhain yn cynnwys arddangosfeydd celf llwyddiannus oedd yn cael eu harwain gan fyfyrwyr, cyrsiau byrion a ddarparwyd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, staff a myfyrwyr. Fe wnaethom barhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ein treftadaeth a'n diwylliant drwy gyflawni ein strategaeth iaith Gymraeg - Cyfle - ac roedd gennym bresenoldeb yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Brifysgol yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr nad ydynt yn derbyn tâl fel sy'n arferol mewn sefydliadau addysg uwch elusennol eraill yn y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr yn annibynnol o'r Brifysgol, ac mae yna llywodraethwyr o blith staff a myfyrwyr.

Llywodraethu Corfforaethol

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymrwymedig i sicrhau safonau uchel o lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio sut mae egwyddorion perthnasol llywodraethu da yn cael eu cymhwyso, gan arddangos ei bod yn cydymffurfio gydag arferion gorau o fewn y sector addysg uwch. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i ymdrin â materion mewn ffordd gyfrifol a thryloyw, a chymryd i ystyriaeth gofynion cyrff ariannol, y safonau o fewn bywyd cyhoeddus a ddatganwyd gan Bwyllgor Nolan, y Cod Cyfunol, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU fel y mae'n berthnasol i Addysg Uwch, a Chod Llywodraethiant Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020).

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cynnal cyfrifoldeb cyffredinol dros systemau'r Brifysgol a'r Grŵp o sicrhau bod yna system gadarn o reoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu arc ar gyfer adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae systemau o'r fath wedi'u dylunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion, a gall ddarparu lefel resymol o sicrwydd yn hytrach na sicrwydd absoliwt yn erbyn cam-ddatgan neu golli deunydd. Mae datganiad o brif gyfrifoldebau wedi cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd yn unol gyda darpariaethau Cod Llywodraethu Addysg Uwch CUC (2020). Caiff ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol a'i adolygu bob dwy flynedd o leiaf.

Mae'r datganiad yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd fel prif awdurdod ariannol, busnes a chyfreithiol y Brifysgol, a'r awdurdod cyflogi ar gyfer yr holl staff. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gymeriad addysgol, gweledigaeth a strategaeth, enw da, cynllunio academiaidd a busnes, monitro perfformiad sefydliadol, llywodraethu academiaidd effeithiol, cynaliadwyedd ariannol, iechyd a diogelwch, cyfartaledd, amrywiaeth a chynhwysiant, asedau'r Brifysgol, eiddo ac ystâd a lles myfyrwyr a sicrhau fod ei waith yn y meysydd hyn yn boddhau diddordebau rhanddeiliaid y Brifysgol. Cynhaliwyd pob un o gyfarfodydd y Bwrdd wyneb yn wyneb ar y campws yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24, gyda nifer fach o gyfarfodydd hybrid i hwyluso mynychu i lywodraethwyr pan oedd yn ofynnol.

Strwythur Llywodraethu Corfforaethol y Brifysgol

Mae'r Bwrdd yn cwrdd o leiaf bum gwaith y flwyddyn gyda llawer o'i waith manwl yn cael ei drin yn y lle cyntaf gan ei bwyllgorau sefydlog. Sefydlir y pwyllgorau hyn yn ffurfiol gyda chyrch gorchwyl, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, ac sy'n cynnwys aelodau annibynnol yn bennaf a benodwyd yn unol gydag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan lywodraethwr annibynnol. Mae pob pwyllgor yn adolygu eu gwaith ac yn adfyfrio arno gan ddarparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Bwrdd yn ymgymryd mewn diwrnod strategol blynyddol gydag aelodau o Fwrdd yr Is-ganghellor er mwyn adfyfrio ar berfformiad a chyfeiriad strategol y Brifysgol a materion eraill o bwys. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnod datblygu blynyddol lle cynhelir sesiwn i lywodraethwyr gwrdd heb i'r Is-ganghellor a'r Prif Swyddogion fod yn bresennol. Mae strwythur pwyllgor y Bwrdd yn cynnwys pum pwyllgor. Darperir adroddiadau ar gylch gwaith ac aelodaeth pob hun, yn ogystal â chrynodeb o'r busnes a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academiaidd 2023/24 yn yr adrannau canlynol. Darperir adroddiadau cyffelyb ar gyfer y Bwrdd Academiaidd a Bwrdd Gweithredol yr Is-ganghellor yn ogystal.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Sefydli'r Pwyllgor Archwilio a Risg gan y Bwrdd Llywodraethwyr i'w cynghori hwy a darparu trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Brifysgol, y trefniadau i hyrwyddo'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a threfniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys hyd at dri aelod cyfetholedig allanol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Llywodraethwyr, i ddarparu allanoldeb i drafodaethau'r Pwyllgor.

Ar ddechrau pob cyfarfod, mae'r aelodau'n cwrdd yn breifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol. Does yr un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Jayne Owen (Cadeirydd)	4/4
Diane McCarthy (Is-gadeirydd)	4/4
Richard Campbell	4/4
David Subacchi	3/4
Trevor Henderson (aelod cyfetholedig)	4/4
Mike Harvey (aelod cyfetholedig)	4/4

Crynodeb o'r materion 2023/24

Yn flynyddol, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a nodir o fewn ei gylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor yn trefnu cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn ystod 2023/24 fe wnaeth y Pwyllgor ganolbwyntio ar bedwar prif faes ac adroddodd i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 ynghylch sut roedd wedi mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Roedd y meysydd dan sylw yn cynnwys:

1. Parhau gyda gwahoddiadau i fynychu'r cyfarfod a thrafod eu meysydd risg gyda ffocws ar fusnes craidd academiaidd y Brifysgol
2. Dilyn i fyny ar ddatganiadau ariannol hwyr yr is-gwmni Gwyddoniaeth Gogledd Cymru.
3. Monitro'r cais am ffioedd ar gyfer yr archwiliad allanol ar ddatganiadau ariannol 2022/23

Yng ngwaith arall y Pwyllgor:

- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a derbyn adroddiadau o archwiliadau oedd yn cynnwys: Prosesau anfonebu ar gyfer myfyrwyr lechyd; systemau AD a'r gyflogres; Strategaeth TG a dulliau o'i rhoi arwaith er mwyn ei chyflawni; diogelwch TG; lechyd Meddwl a Lles Staff; Cynaliadwyedd Ariannol; Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol; Rheoli Risg; Systemau Data a Phrosesau AU. Bu i'r Pwyllgor fonitro gweithredu yr holl gamau rheoli oedd yn codi o adroddiadau'r archwiliad mewnol.

- Craffodd ar ddatganiadau ariannol drafft 2022/23 gyda ffocws arbennig ar farn yr archwilydd allanol, datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, datganiad rheolaeth fewnol a'r datganiad llywodraethu corfforaethol.
- Cymeradwyodd benodi archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol hyd at 31ain Gorffennaf 2024, yn dilyn proses dendro gystadleuol.
- Ystyriodd amrywiaeth o adroddiadau sicrwydd eraill gan gynnwys ar gynydd rhoi gynllun gweithredu ar waith ar God Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesol Cadwyni Cyflenwi, gwybodaeth am lywodraethu, cydymffurfio gyda ffioedd a chynllun mynediad at lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol, caethwasiaeth fodern, arbedion caffael blynyddol, gwerth am arian, chwythu'r chwiban, adrodd am ddigwyddiadau difrifol, a chydymffurfio gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol a Chod Ymarfer Archwilio.
- Adolygodd y Pwyllgor berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â'i effeithiolrwydd ei hun, gan adolygu arfer yn erbyn Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio AU CUC (2020).

Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn gyfrifol am fonitro materion strategol, am gynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr ar gyfeiriad strategol y Brifysgol, am gynnal trosolwg o faterion ariannol y Brifysgol a datblygu'r Ystâd ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr; ac i roi ystyriaeth gychwynnol i unrhyw un o faterion y Bwrdd sydd o bwys neu gymhlethdod arbennig sydd heb fod o fewn cylch gorchwyl pwyllgorau eraill y Bwrdd a chynghori arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd fel arfer bum gwaith y flwyddyn. Yn 2023/24 cynhaliwyd un cyfarfod anarferol ychwanegol. Does yr un o aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid sydd hefyd yn aeloda o'r Pwyllgor Archwilio.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Paul Barlow (Cadeirydd)	6/6
Yr Athro Martin Chambers (Is-gadeirydd)	6/6
Richard Thomas	3/6
Maureen Wain	3/6
Dr Leigh Griffin	5/6
Yr Athro Maria Hinfelaar	5/6
Amy Anglesea (Arsyllwr)	1/3
Maisie Head (Arsyllwr)	3/3

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Annually, in addition to the responsibilities laid out within its terms of reference, the Committee sets itself a workplan for the year ahead. During 2023/24 the Committee focused on four key areas and reported to the full Board at its July 2024 meeting on how it had addressed these areas.

The Committee:

1. Ffonitro datblygiad Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol hyd at 2030
2. Monitro perfformiad a chynnydd is-gwmnïau'r Brifysgol, gyda ffocws arbennig ar Glyndwr Innovations Ltd.
3. Cynyddu ei ffocws ar ddenu myfyrwyr rhyngwladol, ffioedd a bwrsariaethau
4. Monitro cyfraddau cadw myfyrwyr
5. Monitro perfformiad contract y Brifysgol gyda Gwella Addysg lechyd Cymru
6. Parhau i adolygu dull y Brifysgol o ymdrin â rheolaeth y trysorlys

Mewn gwaith arall, bu i'r Pwyllgor:

- Graffu a chynghori'r Bwrdd ar ddatganiadau ariannol 2022/23 Undeb y Myfyrwyr oedd wedi'u harchwilio; datganiadau ariannol 2023/24 y Brifysgol oedd wedi'u harchwilio, y Strategaeth Ariannol a chynigion a rhagolygon cyllidebol ar gyfer 2024/25;
- Craffu ar achosion busnes a monitro cyflawniad prosiectau strategol a chyfalaf mawr fel rhan o gynllun Campws 2025 y Brifysgol.
- Cymeradwyo ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan amser, amser llawn a rhyngwladol ar gyfer 2024/25
- Adolygu adroddiadau o gontractau a ddyfarnwyd oedd dros £25k, y dystiolaeth i gefnogi llofnodi Adroddiad Cynaliadwyedd Sicrwydd Blynnyddol, a Thelerau ac Amodau Ariannu Medr a'r dyraniadau ariannu ar gyfer 2023/24.

Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau

Mae'r Pwyllgor Ansawdd Academaidd a Safonau yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd i gynnal ansawdd a safonau Bwrdd y Brifysgol ar draws yr holl ddarpariaeth Academaidd. Mae hyn yn cwmpasu darpariaeth is-raddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal â phartneriaethau academaidd rhyngwladol ac o fewn y DU.

2023/24 oedd y flwyddyn gyntaf i'r Pwyllgor hwn gyfarfod, yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i sefydlu Pwyllgor ffurfiol (yn lle'r Panel Craffu Ansawdd a Safonau oedd wedi cwrdd yn flaenorol). Yn 2023/24, cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd)	2/3
Richard Thomas (Is-gadeirydd)	2/3
Maureen Wain	3/3
Fabrizio Trifiro	1/3
Dr Leigh Griffin	3/3
Yr Athro Maria Hinfelaar	3/3
Dr Karen Heald	0/3
Amy Anglesea	1/3
Maisie Head	1/3

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Pwyllgor:

- Fonitoro cynnydd gyda Chynllun Gweithredu Sicrwydd Ansawdd y Brifysgol gyda HEFCW.
- Craffu ar adroddiad a thystiolaeth gefnogol yn sail i gadarnhau datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol i HEFCW.
- Monitro materion ar draws y sector gan gynnwys y trawsnewid o HEFCW i'r rheoleiddiwr newydd, sef Medr, yn 2024.
- Canolbwyntio ar gryfhau dull y Brifysgol o ymdrin â phartneriaethau strategol er mwyn sicrhau lefelau uchel o ansawdd a safonau academiaidd, gan gynnwys datblygu Gweithdrefn Partneriaeth Academiaidd newydd a phroses ar gyfer ymgymryd â diwydrwydd dyledus gyda phartneriaethau newydd arfaethedig.

Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr i gydnabod mai'r staff, yn academiaidd ac yn broffesiynol, yw adnodd allweddol y Brifysgol. Rôl y Pwyllgorau yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod yr amgylchedd gwaith, y diwylliant a'r gwerthoedd, a strategaethau, polisiau ac arferion sy'n gysylltiedig â phobl y Brifysgol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth y Brifysgol yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd)	3/4
Will Naylor (Is-gadeirydd)	3/4
Paul Barlow	3/4
David Subacchi	4/4
Dr Leigh Griffin	3/4
Yr Athro Maria Hinfelaar	4/4

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Yn flynyddol, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a nodir o fewn ei gylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor yn trefnu cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn ystod 2023/24 fe wnaeth y Pwyllgor ganolbwyntio ar bedwar prif faes ac adroddodd i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 ynghylch sut roedd wedi mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Bu i'r Pwyllgor:

1. Fonitoro cynnydd wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad y Brifysgol ar gyfer y Siarter Cydraddoldeb Hiliol, a chael adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28.
2. Monitro effaith bosibl deddfwriaeth gan gynnwys 'Cyfraith Martyn' a'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi:

- ystyried adroddiadau lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt fel eitem sefydlog ar yr agenda, a chymeradwyo Datganiad Polisi lechyd a Diogelwch y Brifysgol, y Datganiad Polisi Ynni a Chynaliadwyedd, a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar gyfer Diogelwch, lechyd ac Amgylchedd.
- cymeradwyo datganiad atebolrwydd blynyddol y ddyletswydd Atal ar ôl ystyried tystiolaeth i gefnogi'r datganiad, gan arwain at gadarnhau bod y Brifysgol wedi dangos tystiolaeth ddigonol ei bod wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd Atal;
- monitro gwaith ar ddiwylliant a gwerthoedd, gan gynnwys derbyn adroddiadau ar weithgareddau datblygu staff, a chynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth Pobl a Diwylliant
- craffu a chymeradwyo amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau gan gynnwys Datgelu er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban), Gweithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Deiliaid Uwch Swyddi, Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Deiliaid Swyddi Uwch, Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru, a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol.
- derbyn adroddiadau ar faterion cyflogaeth gan gynnwys absenoldeb salwch blynyddol, achosion disgyblu staff, cwynion ac urddas yn y gwaith, trafodaethau cyflog UCEA, cyfansoddiad y corff staff yn erbyn meincnodau HESA
- cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg, gan nodi meysydd o arfer da yng ngwaith y Brifysgol o ran y Gymraeg a'i Diwylliant, a chyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol (CYFLE)

Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ateboli'r Bwrdd y Llywodraethwyr am oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol i sicrhau bod y Brifysgol yn mynd ar drywydd arferion gorau.

Mae'n gyfrifol am nodi ac argymhell penodi Llywodraethwyr newydd i'r Bwrdd, am enwebu Llywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig i bwyllgorau'r Bwrdd, cyngori ar benodi'r Canghellor a nodi ac argymhell derbynwyr Cymrodoriaethau er Anrhydedd y Brifysgol i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys llywodraethwr staff academiaidd a myfyriwr-lywodraethwr yn ogystal ag aelod allanol cyfetholedig nad yw'n aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr. Yn 2023/24, cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Claire Homard (Cadeirydd)	2/2
Diane McCarthy (Is-gadeirydd)	2/2
Dr Leigh Griffin	2/2
Yr Athro Maria Hinfelaar	1/2
Bruce Roberts (aelod cyfetholedig)	2/2
Dr Karen Heald	0/2
Amy Anglesea	1/1
Maisie Head	2/2

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Yn flynyddol, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a nodir o fewn ei gylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor yn trefnu cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn ystod 2023/24 canolbwyntiodd y Pwyllgor ar bum maes allweddol ac adrodd i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 ar sut roedd wedi mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Bu i'r Pwyllgor:

1. Parhau i oruchwyllo'r gwaith o gwblhau camau gweithredu yng nghynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd, a ddeilliodd o adolygiad Camm o Lywodraethu mewn Prifysgolion yng Nghymru, ac adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2021/22.
2. Goruchwyllo proses lwyddiannus o gynefino llywodraethwyr annibynnol newydd a ymunodd â'r Bwrdd yn 2023/24.
3. Monitro aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor, gan ganolbwyntio ar gynllunio olyniaeth ar gyfer llywodraethwyr sy'n cyrraedd diwedd eu tymhorau. Yn dilyn rownd recriwtio lwyddiannus yn ystod Haf 2024 ac argymhellion y Pwyllgor i'r Bwrdd, penodwyd cyfanswm o bedwar llywodraethwr annibynnol newydd a dau aelod cyfetholedig newydd i'r Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

Mewn gwaith arall, bu i'r Pwyllgor:

- Nodi diweddariadau ynghylch cymeradwyo Cymrodyr er Anrhydedd
- Adolygu dogfennau llywodraethu gan gynnwys disgrifiad rôl Llywodraethwr, proses ddethol ar gyfer llywodraethwyr annibynnol, cynefino Llywodraethwyr, gweithdrefn mentora a DPP, Rheolau Sefydlog, Datganiad o Gyfrifoldebau Sylfaenol, Cod Ymddygiad ar gyfer Llywodraethwyr, Datganiad ar feincnodi a defnyddio data cymharol, Canllawiau ar annibyniaeth i lywodraethwyr, Datganiad ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Adolygu'r Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gan argymhell cymeradwyaeth i'r Bwrdd.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr sefydlu Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth i ystyried a phenderfynu ar daliadau'r Is-ganghellor a deiliaid swyddi uwch eraill fel y'u diffinnir o dan yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac y cytunir arnynt gan y Bwrdd. Yn ogystal â thaliadau cydnabyddiaeth, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystyried trefniadau diswyddo'r Is-Ganghellor a deiliaid uwch swyddi eraill a phawb sy'n ennill cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn o fwy na £100k y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu gwybodaeth feincnodi berthnasol a thystiolaeth o berfformiad deiliaid uwch swyddi yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt, yn ogystal â'r bwlch cyflog rhwng y deiliaid uwch swyddi a gweddill y gweithlu. Rhaid i'r Pwyllgor ystyried budd y cyhoedd a diogelu arian cyhoeddus ochr yn ochr â buddiannau'r Brifysgol wrth ystyried pob math o dâl, gwobr neu delerau diswyddo i ddeiliaid uwch swyddi.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Ym mis Hydref, mae'n ystyried y datganiad polisi cyflog blynyddol ac ym mis Mehefin mae'n ystyried tâl deiliaid uwch swyddi h.y. yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor, yn unol ag arferion blynyddol. Cyflwynir adroddiad ar benderfyniadau'r Pwyllgor i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth wedi mabwysiadu Cod Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch Staff Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) (diwygiwyd 2021). Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Aelodau	Presenoldeb Nifer a fynychwyd o'r nifer yr oeddent yn gymwys i'w mynychu
Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd)	2/2
Will Naylor (Is-gadeirydd)	2/2
Paul Barlow	2/2
David Subacchi	2/2
Dr Leigh Griffin	2/2

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Bu i'r Pwyllgor:

- ystyried y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol a'i argymhell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi;
- ystyried perfformiad Clerc y Bwrdd
- derbyn diweddariadau ar y broses recriwtio a phenodi'r Athro Joe Yates yn Is-Ganghellor, a'r Athro Paul Davies yn Ddirprwy Is-Ganghellor o 2024/25.

Taliad cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor

Mae manylion llawn taliad cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor ar gael yn y Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol ar gyfer 2023/24. Mae'r datganiad polisi tâl hwn yn cyd-fynd â Thryloywder Cyflogau Uwch-aelodau Staff yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig (2016) y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus, ac y mae hefyd yn bodloni gofynion Cod Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch Staff Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) (2021).

Monitro perfformiad

Mae cynllun adolygu datblygiad perfformiad blynyddol (PDR) ffurfiol ar waith ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys yr Is-ganghellor. Mae tri cham i'r broses hon. I ddechrau, mae Cadeirydd y Bwrdd yn cwrdd â'r Is-ganghellor i adolygu amcanion y flwyddyn flaenorol ac yn gosod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynhelir adolygiad canol blwyddyn o berfformiad, gydag adolygiad terfynol a chymeradwyaeth tua diwedd pob blwyddyn academiaidd. Mae amcanion blynyddol yr Is-ganghellor yn cael eu rhannu â'r Bwrdd llawn fel rhan o adroddiad taliadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor.

Mae amcanion blynyddol yr Is-ganghellor yn canolbwyntio ar bedwar maes strategol Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol 2025: addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n hysbysu, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal. Gosodir mesurau cyflawni cyffredinol ar gyfer yr Is-Ganghellor wedi'u hategu gan dargedau SMART sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth a'r Strategaeth, a strategaethau ategol perthnasol. Yn ogystal, mae'r Is-ganghellor yn gosod amcanion personol sy'n ymwneud â 'rôl arwain' a 'phroffil allanol'.

Yn unol â pholisi taliadau cydnabyddiaeth deiliad swyddi uwch, mae Cadeirydd y Bwrdd yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ar berfformiad yr Is-ganghellor yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

Cyd-destun

Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yn cael adroddiad meincnod bob blwyddyn i lywio eu hystyriaeth o dâl cydnabyddiaeth yr Is-ganghellor. Ar gyfer y flwyddyn adrodd roedd y wybodaeth meincnod yn ymwneud â sefydliadau ôl-92 a sefydliadau bach (gyda throsiant o rhwng £24m a £70m), a galluogodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r ystodau cyflog a ganiataodd i'r Brifysgol bennu cyflogau cychwynnol ar gyfer yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor newydd.

Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn ystyried data meincnod mewnol gan gynnwys; lluosydd tâl cyflog yr Is-ganghellor yn erbyn enillion canolrifol yr holl staff, y cynnydd canrannol cymedrig ar gyfer yr holl staff eraill, bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd ac anabled a data meincnodi arall a nodir yn fanwl yn natganiad polisi cyflogau blynyddol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi talu Cyflog Byw'r Living Wage Foundation i'r holl staff ers 1 Awst 2018. Nid oes gan y Brifysgol gynllun bonws.

Cyflawniadau'r Is-ganghellor 2023/24

Gwnaeth yr Athro Hinfelaar gynnydd cadarnhaol yn erbyn targedau a thynnodd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth sylw at frand newydd Prifysgol Wrecsam, cynnydd o ran Cenhadaeth Ddinesig, canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, a sefyllfa ariannol y Brifysgol fel llwyddiannau penodol. Adfyfyriodd y Pwyllgor ar gyfnod yr Athro Hinfelaar fel Is-Ganghellor a chanmolodd yr aelodau ei dycnwch, ei chymhelliant, a soniodd am newid cadarnhaol iawn yn y sefydliad o dan ei harweinyddiaeth.

Fel arfer, byddai ystyriaeth o gyflawniadau'r Is-ganghellor yn ystod y flwyddyn yn cael ei defnyddio fel sail i'r Pwyllgor benderfynu a fyddai codiad cyflog uwchlaw a thu hwnt i'r dyfarniad cyflog cenedlaethol yn cael ei ddyfarnu.

Fodd bynnag, gan y byddai'r Athro Hinfelaar yn ymddeol ym mis Awst 2024, nid oedd yn wir yn yr achos hwn. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yr Is-ganghellor wedi nodi nad oedd yn dymuno cael mwy na'r codiad cyflog y cytunwyd arno'n genedlaethol a oedd yn berthnasol i'r holl staff.

Vice-Chancellor's Executive Committee

The Vice-Chancellor's Executive Committee adopts the principles of 'collective responsibility' by taking ownership of the corporate aims and objectives and decisions of the Board of Governors, Academic Board and the Vice-Chancellor and implements the strategic framework of the University working towards the achievement of the University's vision and mission.

Its remit encompasses financial health, resource management, strategic imperatives, action planning, partnerships and external impact, and risk management. The membership of the Group constitutes those members of Senior Management who report directly to the Vice-Chancellor.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

Membership 2023/24	
Yr Athro Maria Hinfelaar	Is-ganghellor a Chadeirydd
Yr Athro Aulay Mackenzie (hyd at fis Mehefin 2024)	Dirprwy Is-ganghellor Gweithredol ac Is-gadeirydd Pro Vice-Chancellor, Partnerships (Int & UK)
Yr Athro Richard Day	Pro Vice-Chancellor Research
Yr Athro Ieuan Ellis	Dirprwy Is-ganghellor Dros Dro, Prosiectau Newid Strategol
David Elcock	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Lynda Powell	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Peter Gibbs	Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol

Bwrdd Llywodraethwyr

Mae'r Is-ganghellor yn aelod ex-officio o'r Bwrdd Llywodraethwyr. Nid yw aelodau eraill o Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor yn aelodau ond maent yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau'n rheolaidd er mwyn cyflwyno adroddiadau a darparu cyngor sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r pwyllgorau yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, Pwyllgor Pobl a Diwyliant a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Tâl. Mae disgrifiad wedi'i gymeradwyo o'r rôl mae swyddogion gweithredol yn ei chwarae mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn ei le.

Mae'r Is-ganghellor yn mynychu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Tâl ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad deiliaid swyddi uwch sy'n adrodd yn uniongyrchol iddo yn unig, ond nid yw'n aelod.

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Roedd gwaith yr ymgwymerwyd ag o gan Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor yn cynnwys gweithgareddau ynghylch y themâu strategol canlynol:

- Monitro cynnydd wrth gwblhau'r Cynllun Gweithredu Sicrwydd Ansawdd, a thrafodaeth gyda'r rheoleiddiwr ynghylch materion yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd.
- Sicrhau cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Brifysgol yn wyneb pwysau sylweddol ar draws y sector.
- Datblygu Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol newydd hyd at 2030.
- Datblygu perthynas gyda Medr fel y rheoleiddiwr newydd ar gyfer y sector addysg drydyddol yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda'r Bwrdd Llywodraethwyr.
- Monitro cynnydd wrth sicrhau Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil.
- Datblygu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ymhellach yn dilyn penodiadau newydd ar y lefel hwnnw.
- Gweithio er mwyn cryfhau proses a gweithdrefn yn gysylltiedig gyda Phartneriaethau Academaidd.
- Gweithio i ddatblygu a sefydlu proses newydd ar gyfer rheoli risg corfforaethol.

Bwrdd Academaidd

Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am sawl mater sy'n berthnasol i'r gwaith ymchwil, ysgolheictod, addysgu a chysiau yn y Brifysgol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr; penodi a diddymu arholwyr mewnol ac allanol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer eu hasesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd er anrhydedd; a'r gweithdrefnau ar gyfer eithrio myfyrwyr am resymau academaidd.

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ddibynol ar ofynion y cyrff dilysu ac achredu. Mae'r Bwrdd Academaidd hefyd yn ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w cefnogi, a chynghori'r Is-ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr

Aelodaeth a Phresenoldeb 2023/24

- 12 Medi 2023
- 8 Tachwedd 2023
- 7 Chwefror 2024
- 23 Chwefror 2024 (cyfarfod eithriadol)
- 15 Mai 2024
- 11 Gorffennaf 2024

	Aelodau	Presenoldeb
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr (Cadeirydd)	Yr Athro Maria Hinfelaar	6/6
Dirprwy Is-ganghellor (dros dro) (Is-gadeirydd)	Yr Athro Aulay Mackenzie	2/6
Dirprwy Is-ganghellor Dros Dro ar gyfer Prosiectau Strategol	Yr Athro Ieuan Ellis	6/6
Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil	Yr Athro Richard Day	5/6
Deon Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianneg	Dr Stewart Eyres / Dr Carl Schaschke / Yr Athro Anne Nortcliffe	5/6
Deon Gwyddorau Bywyd a Chymdeithasol	Dr Simon Stewart	5/6
Deoniaid Cyswllt	Yr Athro Alec Shepley	3/6
	Dr Shafiul Monir	3/6
	Jo Pike	3/6

Deoniaid Cyswllt	Cerys Alonso	6/6
	Dr Caroline Hughes	5/6
	Dr Sue Horder	3/6
	Yr Athro Mandy Robbins	4/6
	Dr Neil Pickles / Dr Steve Butts	4/6
Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Lynda Powell	5/6
Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr	James Dawson	6/6
Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau	Helena Eaton	3/6
Cynrychiolwyr Ymchwil y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianeg	Nataliia Luhyna	5/6
Cynrychiolwyr Ymchwil Gwyddorau Bywyd a Chymdeithasol	Dr Chelsea Batty	4/6
Staff Addysgu Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianeg	Mike Wright	1/6
Staff Addysgu Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianeg	Dr Zheng Chen	2/6

Crynodeb o'r Materion 2023/24

Dros y flwyddyn aeth heibio mae'r Bwrdd Academaidd wedi ymgymryd â busnes yn unol â'i gyfrifoldebau fel a ganlyn:

- adolygiadau, diweddariadau ac ychwanegiadau i reoliadau academaidd ar draws pob maes darpariaeth, gan gynnwys y rheoliadau academaidd newydd a gyflwynwyd ganol y flwyddyn.
- derbyn ac adolygu amrywiaeth eang o adroddiadau ar faterion ynghylch dysgu, addysgu a sicrwydd ansawdd, gan gynnwys: Adroddiad Trosolwg Safonau Blynyddol, Strategaeth y Brifysgol ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr; adroddiadau ar uniondeb academaidd, cwynion; deilliannau myfyrwyr megis canlyniadau gradd, Deilliannau NSS a Deilliannau Graddedigion, adroddiadau a diweddariadau gan HEFCW a QAA; a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- ystyried a chymeradwyo polisiau newydd neu wedi'u cymeradwyo ac sy'n berthnasol

i ddarpariaeth academaidd ac ymddygiad myfyrwyr a/neu'n cael traweffaith arnynt, er enghraifft Polisi Asesu a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol.

- ystyried a chymeradwyo amrywiaeth o waith dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni, gohirio/dileu rhaglenni a rhan-ddirymiad ar draws pob maes darpariaeth.
- derbyn adroddiadau ar amrywiaeth o faterion eraill sy'n berthnasol i fusnes academaidd y Brifysgol, yn fwyaf nodedig: diweddariadau a chymeradwyo materion partneriaeth academaidd; diweddariadau gan y Pwyllgor Archwilio; a derbyn diweddariadau ynghylch materion yn gysylltiedig gyda mynediad a chadw myfyrwyr; ac ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg.
- Cynhaliwyd un cyfarfod eithriadol ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ystyried eitem unigol ar yr agenda oedd yn gysylltiedig gyda phartneriaeth gydweithredol wedi'i lleoli yn y DU

Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

Mae sicrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch effeithiolrwydd y system risg a rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr uwch reolwyr o fewn y Brifysgol, sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith reoli mewnol, drwy ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Risg sylwadau a wnaed gan archwilwyr mewnol yn eu hadroddiad blynyddol ac archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

Dull y Brifysgol o ymdrin â rheoli risg yn effeithiol

Mae'r dull o ymdrin â rheoli risg yn seiliedig ar ei fod yn rhan weithredol o arfer da, arferol a busnes fel arfer, ond gan gydnabod yr angen a'r gwerth o gael proses eglur, unffurf ac eglur ar draws y Brifysgol ac i hyn fod yn cael ei recordio a'i gofnodi'n ffurfiol. Mae yna fframwaith risg sefydliadol sy'n nodi risgiau strategol/corfforaethol, ac sydd wedyn yn cael ei gefnogi gan gofrestr risg gweithredol. Caiff y gofrestr risg corfforaethol ei ddatblygu gan Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor a'i adolygu a'i gymeradwyo drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ystod y risgiau corfforaethol yn cwmpasu sawl maes academaidd, proffesiynol a gweithredol ac yn cymryd i ystyriaeth fod y Brifysgol yn sefydliad cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gweithredu mewn amgylchedd cyhoeddus a rheoledig.

Mae risgiau corfforaethol yn parhau i gael eu hadolygu gan uwch reolwyr sydd wedi'u penodi fel 'perchnogion' risgiau ond maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol o safbwynt eu priodoldeb cyffredinol; a hefyd yn chwarterol er mwyn penderfynu ar ba mor gyfredol ydynt a chydabod unrhyw newidiadau sy'n digwydd o fewn y flwyddyn. Mae'r gofrestr risg corfforaethol yn nodi: natur y risg, traweffaith posib y risg a nodwyd, y tebygolrwydd o'r risg yn dod i fod, 'perchennog' y risg, y mesurau lliniaru ar gyfer rheoli'r risg, a chaiff hyn ei sgorio cyn ac wedi i'r mesurau lliniaru gael eu hystyried, a darperir gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig gydag amgylchiadau neu bethau sy'n sbarduno risg ac edrych i weld beth sydd i ddod.

Mae'r gofrestr risg gweithrediadol wedyn yn eistedd ochr yn ochr gyda'r gofrestr risg corfforaethol, gyda'r cyfrifoldeb fel perchennog risg yn eistedd gyda phenaethiaid y meysydd academaidd a phroffesiynol perthnasol ar draws pob rhan o'r Brifysgol, gyda chefnogaeth ymarferol gan arweinydd risg yn eu maes eu hunain.

Gofynnir i bob maes sicrhau bod y risgiau lleol yn cael eu hystyried yn rhagweithiol o fewn eu strwythurau rheoli ac adrodd, gydag uwchraddio'n digwydd drwy bwyllgorau priodol y Brifysgol ac wedi'u sbarduno gan Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor os yw sgôr risg gweddillol yn uchel neu'n uchel iawn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn ac yn ystyried adroddiad ar brosesau rheoli risg gan ddarparwr archwiliwr annibynnol y Brifysgol, sef RSM LLP.

Mae'r gofrestr risg corfforaethol wedi'i hadolygu gan y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr o'r farn bod proses effeithiol a pharhaus ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli prif risgiau'r Brifysgol wedi bod mewn lle yn ystod cyfnod y datganiadau ariannol. Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer rhoi argymhellion yr Archwiliad mewnol ar waith ar gyfer gwella ac atgyfnerthu'r broses rheoli risg ymhellach yn 2024/25. ac a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol gyda Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol sydd wedi'i gymeradwyo.

Datganiad rheolaeth fewnol

Roedd prif elfennau system rheolaeth fewnol y Grŵp, sydd wedi'i gynllunio i ryddhau'r cyfrifoldebau a nodir uchod yn cynnwys y canlynol:

- Ffyrdd adnabod eglur ar gyfer cyfrifoldebau uwch reolwyr a phenaethiaid meysydd academiaidd a phroffesiynol a'r awdurdod a ddirprwyir iddynt;
- Proses gynllunio tymor canolig a thymor byr, wedi'i hatodi gan gyllidebau manwl incwm blynyddol, gwariant, cyfalaf a llif arian;
- Adolygiadau rheolaidd o waith recriwtio myfyrwyr ac adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau ariannol sy'n ymwneud ag adrodd am amrywiadau a diweddariadau o ragolygon alldro;
- Gofynion ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant wedi eu diffinio'n eglur a'u ffurfioli, gyda phenderfyniadau ynghylch buddsoddi sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf neu refiniw yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol ac yn fanwl a'u hadolygu yn unol â lefelau sydd wedi'u cymeradwyo ac a osodwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr;

- Rheoliadau Ariannol Cynhwysfawr, yn rhoi manylion am fesurau rheoli a gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethwyr.
- Darparwr Archwilio Mewnol annibynnol proffesiynol y mae eu rhaglen flynyddol yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- Cysylltu adnabod a rheoli risg i gyflawni amcanion strategol y Brifysgol drwy'r broses gynllunio;
- Gwerthuso pa mor debygol yw'r risgiau a'u traweffaith o ddod yn realiti fel rhan o'r un broses a sefydlu mesurau rheoli sy'n lliniaru;
- Gwreiddio rheoli risg a phrosesau rheoli mewnol yng ngweithrediad presennol yr holl adrannau academiaidd a gwasanaethau proffesiynol;
- Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yna i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ar reolaeth fewnol a risg; ac
- Adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr ar brif ganlyniadau adnabod, gwerthuso ac adolygiad rheolaeth risgiau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr, wedi adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol y Brifysgol.

Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC)

Drwy gydol blwyddyn academiaidd 2023/24 mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cadw at ddarpariaeth Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai 2020).

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) (Mai 2020).

Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion Cymru (Camm) 2019

Mabwysiadwyd Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru gan y Bwrdd ym mis Mai 2020. Mae'r Siarter yn dangos dull o wella llywodraethu sydd wedi'i fabwysiadu gan yr holl Brifysgolion yng Nghymru er mwyn arddangos eu hymrwymiad i ddatblygiad a gwelliant parhaus llywodraethu o fewn eu prifysgolion eu hunain ac o fewn y sector yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Cwblhawyd yr holl gamau o fewn ei rheolaeth ei hun gan y Bwrdd erbyn diwedd blwyddyn academiaidd 2021/22.

Yn ystod 2023/24 parhaodd y Bwrdd i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd wedi'i anelu at wella amrywiaeth y Bwrdd ac ymgorffori argymhellion sy'n codi o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd yn ymwneud ag ehangu trosolwg y Bwrdd o faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fwy cyffredinol.

Cynefino a Datblygu Llywodraethwyr

Mae gan y Bwrdd Weithdrefn Cynefino, Mentora a Datblygiad Proffesiynol Parhaus Llywodraethwyr sy'n egluro'r prosesau cynefino a datblygiad y gall pob llywodraethwr sy'n cael ei benodi ei ddisgwyl wrth iddynt gael eu penodi, wedi'u cefnogi gan lythyr penodi sy'n rhoi amlinelliad eglur o'u cyfrifoldebau. Bwriad y broses hon yw sicrhau bod gan yr holl lywodraethwyr wybodaeth am nodweddion addysgol, cyfeiriad strategol a diwylliant y Brifysgol yn ogystal ag agweddau ymarferol bod yn aelod o'r Bwrdd, gan eu cynorthwyo felly i ddod yn llywodraethwyr effeithiol cyn gynted â phosib. Mae'r holl lywodraethwyr sydd wedi ymuno â'r Bwrdd yn 2023/24 ac ar ddechrau 2024/25 wedi ymgymryd â phroses gynefino yn unol â gweithdrefn y Bwrdd.

Tynnir sylw llywodraethwyr at gyfleoedd datblygiad allanol a briffio'r sector wrth iddynt ddod ar gael fel rhan o'u datblygiad parhaus. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnod datblygiad blynyddol lle mae meysydd datblygiad a nodwyd yn cael sylw gan gydweithwyr yn y Brifysgol neu ddarparwyr allanol. Cynhaliodd Cadeirydd y Bwrdd gyfarfodydd adolygu unigol gyda'r holl lywodraethwyr, ac roeddent gan mwyaf yn canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd. Bydd y Cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd unigol pellach gyda llywodraethwyr yn 2024/25.

Gwella effeithiolrwydd Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr

Mae Cod Llywodraethwyr Pwyllgor Cadeiryddion Addysg Uwch yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff llywodraethu adolygu eu heffeithiolrwydd bob tair blynedd o leiaf. Yn 2022, fe wnaeth y Bwrdd benodi Advance HE i ymgymryd ag adolygiad o'r fath a arweiniodd at gynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael gyda'r argymhellion yn deillio ohono. Parhaodd y cynllun gweithredu i gael ei fonitro gan y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu'r Bwrdd, cyn i'r cynllun a gwblhawyd gael ei awdurdodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf 2023.

Cafodd nifer o'r camau gweithredu, gan gynnwys sicrhau cyfleoedd i lywodraethwyr ymgysylltu gyda'r brifysgol yn ehangach, gan gefnogi sefydlu aelodau newydd o'r Bwrdd, ac adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad aelodau unigol a'r Bwrdd cyfan eu derbyn fel arferion i'w parhau. Parhawyd gyda'r ffocws ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys gwella amrywiaeth aelodaeth y Bwrdd, ac ar roi cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith yn 2023/24. Mae adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu wedi'i gynllunio ar gyfer Ionawr 2025 fel rhan o gynllun archwilio mewnol y Brifysgol.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn wyneb yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion Telerau ac Amodau Cyllido 2023/24 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("HEFCW"), y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"), y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol FRS 102 sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae Telerau ac Amodau Cyllido 2023/24 yn mynnu ymhellach bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Cymeradwy 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llif arian y Grŵp, ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau o bwys yn y datganiadau ariannol;

- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw; a
- defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol, sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant Brifysgol a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg.

Mae'n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y mae'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gymryd y camau hynny sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod cyllid o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny ac wedi'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, pan fo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol (FMC) HEFCW;
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt wedi'u defnyddio a'u bod hefyd wedi'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a phriodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill; a
- sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan y Brifysgol. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



Yr Athro Joe Yates
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr



Dr Leigh Griffin
Cadeirydd y Bwrdd

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol I Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wreccsam

Adroddiad ar Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Wreccsam ("y Brifysgol") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn y Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2024, ac o incwm a gwariant y Grŵp, enillion a cholledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llif arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102 y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad o Arferion Cymeradwy 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesol dan ofynion moesol y DU, gan gynnwys Safon Foesol FRC, ac yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Cwmni sy'n parhau

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad yw'n bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Brifysgol na rhoi'r gorau i'w gweithrediadau, ac wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi casglu nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw unrhyw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel cwmni sy'n parhau am o leiaf blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y cwmni sy'n parhau").

Wrth werthuso casgliadau'r Bwrdd Llywodraethwyr, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp a dadansoddi

sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu'r gallu i barhau â gweithrediadau dros gyfnod y busnes hyfyw.

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o'r farn bod defnydd y Bwrdd Llywodraethwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Llywodraethwyr nad oes ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw ar gyfer y cyfnod busnes hyfyw.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Twyll ac achosion o dorri cyfraith a rheoliadau – gallu i ganfod

Adnabod ac ymateb i risgiau o gam-ddatgan perthnasol oherwydd achos o anghydfurfio â deddfau a rheoliadau

Er mwyn adnabod risgiau o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll ("risgiau o dwyll"), gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac archwilio dogfennau polisi ynghylch polisiau a

gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.

- Cofnodion y Bwrdd Darllen, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddi i adnabod unrhyw berthnasoedd anarferol ac annisgwyl.

Gwnaethom gyfathrebu risgiau twyll adnabyddedig ar draws y tîm archwilio a pharhau i gadw llygad barcud am unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau a'r risg o gydnabyddiaeth refeniw twyllodrus, yn enwedig y risg y bydd incwm o ffioedd dysgu sy'n ymwneud â chyrсияu sy'n cwmpasu diwedd y flwyddyn yn cael ei gofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gallai rheolwyr y Brifysgol fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni wnaethom adnabod unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

Cynaliasom weithdrefnau gan gynnwys:

- Adnabod cofnodion mewn dyddlyfrau i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion sydd wedi'u hadnabod â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys y rhai a oedd yn cael eu cofnodi gan uwch reolwyr cyllid, cyfnodolion a oedd yn cael eu postio gan ddefnyddwyr afreolaidd neu gyfrifon a oedd yn cael eu defnyddio'n anaml a

chyfnodolion a oedd yn cael eu cofnodi ar gyfrifon anarferol.

- Asesu a gofnodwyd trafodion ffioedd dysgu a refeniw ymchwil, ar y naill ochr a'r llall i ddiwedd y flwyddyn, yn y cyfnod cywir.

Adnabod ac ymateb i risgiau o gam-ddatgan perthnasol oherwydd achos o anghydfurfio â deddfau a rheoliadau

Nodwyd meysydd o gyfreithiau a rheoliadau gennym y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol a sector cyffredinol, a thrwy drafod â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheolaeth arall (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio) a thrafod â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Gwnaethom gyfathrebu deddfau a rheoliadau adnabyddedig ar draws y tîm a pharhau i gadw llygad barcud am unrhyw arwyddion o anghydfurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol, deddfwriaeth trethiant, deddfwriaeth pensiynau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, deddfwriaeth a rheoliadau elusennau, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau ar ddatganiadau ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Nodwyd y meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol Addysg Uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gydnabod natur gweithgareddau'r Grŵp. Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymchwilio i'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na chaiff achos o dorri'r rheoliadau gweithredol ei ddatgan i ni neu os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod yr achos hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliadau, mae risg na ellir ei hosgoi efallai na fyddwn wedi canfod rhai cam-ddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio ein harchwiliad a'i gynnal yn briodol ac yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw'r diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau sy'n ofynnol o dan y safonau archwilio yn nodi hynny.

Yn ogystal, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, mae risg uwch o fethu â chanfod achos o dwyll, gan y gall gynnwys cyd-gynllwynio, ffugiad, hepgoriad bwriadol, cam-gynrychiolaeth, neu wrthwneud rheolyddion mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u dylunio i ganfod cam-ddatgan perthnasol. Nid ydym yn

gyfrifol am atal achosion o anghydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod achos o anghydfurfio gyda phob deddf a rheoliad.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr (y mae ei aelodau'n cynnwys Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennol) yn gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys Adroddiad Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Adolygiad yr Is-Ganghellor o'r Flwyddyn Adrodd, Adroddiad Blwyddyn Ariannol 2023/24, y Datganiad Budd Cyhoeddus a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi unrhyw farn o bersbectif archwiliad neu unrhyw sicrwydd a geir yn y casgliad, oni nodir yn wahanol.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes cam-ddatganiad neu anghysondeb perthnasol yn y wybodaeth honno mewn perthynas â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth o'n harchwiliad, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio o'r datganiadau ariannol. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os:

- ar sail y gwaith hwnnw'n unig, rydym wedi canfod camddatganiadau o bwys yn y wybodaeth arall; neu
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Adolygiad yr Is-ganghellor o'r Flwyddyn Adrodd, Adroddiad Blwyddyn Ariannol 2022/23, y Datganiad Budd Cyhoeddus a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr

Fel yr eglurwyd yn fanylach yng Nghyfrifoldebau Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol, Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg; rheolaeth fewnol o'r fath y mae'n penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, datgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw; a defnyddio'r sail busnes hyfyw ar gyfer cyfrifyddu oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd

Ein hamcanion yw caffael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol, fel cyfanwaith, yn rhydd rhag unrhyw gam-ddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i

gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod cam-ddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall cam-ddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rhoddir manylion llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan FRC www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Adrodd ar Ofynion Cyfreithiol a Rheoliadol Eraill

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("HEFCW") (a ddaeth i rym ar 1 Awst 2017) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"). Trosglwyddwyd y gwaith o reoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o HEFCW i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon 2023/24, y Cod Rheolaeth Ariannol a Thelerau ac Amodau Cyllido 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW yn dal mewn grym ar ddyddiad ein hadroddiad. O ystyried y trosglwyddiad hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad a HEFCW yn ein hadroddiad fel cyfeiriad at Medr hefyd.

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- bod cyllid o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at

ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny ac wedi'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;

- mae incwm, pan fo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol ("FMC") HEFCW;
- Defnyddiwyd grantiau'r Cyngor Cyllido yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido 2022/23; a
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon HEFCW wedi cael eu bodloni.

The purpose of our audit work and to whom we owe our responsibilities

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unig yn unol â pharagraff 13(2) Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol ac adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud er mwyn i ni allu datgan wrth y Bwrdd Llywodraethwyr y materion hynny y mae'n rhaid i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i'r Brifysgol a'r Bwrdd Llywodraethwyr am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Richard Weaver

ar gyfer ac ar ran HaysMac LLP, Archwilydd Statudol
Cyfrifwyr Siartredig

Ailfrandiwyd Haysmacintyre LLP yn HaysMac LLP ar 18 Tachwedd 2024. Mae HaysMac LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol ag adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006

10 Queen Street Place
London
EC4R 1AG

29fed Tachwedd 2024

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr Ynghylch yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion Telerau ac Amodau Cyllido 2023/24 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("HEFCW"), y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"), y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae Telerau ac Amodau Cyllido 2023/24 yn mynnu ymhellach bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Cymeradwy 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llif arian y Grŵp, ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw; a
- defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol, sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant Brifysgol a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg.

Mae'n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y mae'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gymryd y camau hynny sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod cyllid o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny ac wedi'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 y FMC;
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt wedi'u defnyddio a'u bod hefyd wedi'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido;

- sicrhau bod rheolaethau ariannol a phriodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill; a
- sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan y Brifysgol. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyfrifon Ariannol

Datganiad o'r prif bolisiau cyfrifyddu

Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol (FRS102), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol FRS 102. Lle bo'n berthnasol, mae'r datganiadau ariannol yn glynu wrth gyfarwyddebau cyfrifyddu HEFCW.

Cwmni sy'n parhau

Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, ei berfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol. Mae'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Sefydliad, ei lif arian, ei sefyllfa hylifedd a'i gyfleusterau benthyca.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw y mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ystyried eu bod yn briodol am y rhesymau canlynol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi rhagolygon llif arian am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Corff Llywodraethu o'r farn, gan ystyried anfanteision difrifol ond credadwy, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol ddigon o arian i fodloni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r busnes hyfyw).

Wrth ddod i'r farn hon ar gynaliadwyedd ariannol y sefydliad hwn, ystyriwyd y ffactorau canlynol:

Ariannol

- monitro perfformiad yn rheolaidd drwy adroddiadau misol, cyllidebau blynyddol a rhagolygon, gan gynnwys cyflwyniadau rhagolygon Medr (HEFCW gynt).
- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig sy'n cydymffurfio â chyfmodau ariannol unrhyw fenthycwyr os yn berthnasol.
- strategaeth llif arian sy'n cyd-fynd â'r drefn gyllido ac sy'n ystyried cyfnodau brig a thawel y cylch cyllido.

Anariannol

- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig.
- cynnal Cofrestr Risg sy'n ystyried risgiau strategol ariannol ac anariannol.
- parhau i ddarparu swyddogaethau llywodraethu a chyfreithiol sy'n cwmpasu'r holl gydymffurfiaeth ariannol, statudol a rheoleiddiol.

Wedi cwblhau model llif arian trylwyr a phrofi senarios sy'n dangos bod gan Grŵp y Brifysgol ddigon o arian wrth gefn i ariannu costau gweithgarwch parhaus am y dyfodol rhagweladwy. Mae costau cynyddol wedi cael eu hystyried wrth brofi senarios ac nid oes unrhyw faterion wedi cael eu nodi na ellir eu lliniaru. Mae'r cronfeydd arian parod ychwanegol hyn yn ddigonol i fodloni'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi.

O ganlyniad, mae'r Corff Llywodraethu yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol ddigon o arian i barhau i gwrdd â'u rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly eu bod wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd gan y gost dybiedig ar gyfer rhai asedau sefydlog fel y'u hailbrisiwyd wrth gyflwyno adroddiadau FRS102.

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gyrff ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2024. Mae trafodion o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli nac yn dylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau polisi.

Mae manylion ymgymeriadau is-gyrff y Brifysgol i'w gweld yn nodyn 23 y datganiadau ariannol.

Cydnabod incwm

Cyfrifir am grantiau bloc y Cyngor Cyllido yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gredu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau'n

cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fydd telerau'r contract wedi'u bodloni. Caiff dyledwr ei gydnabod pan fydd hawl ddiamod i gael budd economaidd yn y dyfodol o ddigwyddiadau yn y gorffennol. Yn unol â'r polisi hwn, pan fydd cyrsiau'n cael eu darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae incwm sy'n ymwneud â'r cyfnod yn y dyfodol yn cael ei ohirio i gydnabod credydwr incwm gohiriedig. Mae gweddill unrhyw falans dyledwyr yn dal i gael ei gofnodi o dan ddyledwyr.

Mae incwm ffioedd yn cael ei nodi'n gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei gredu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y cyfnod y mae myfyrwyr yn astudio ynddo. Pan fydd swm y ffi dysgu yn cael ei leihau, gan ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm sy'n dderbyniadwy yn net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm.

Cyllid Grant y Llywodraeth

Cyfrifir am incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir ar sail cronïadau a'i gynnwys i'r graddau y mae'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a gafwyd cyn perfformiad o'r fath yn cael eu cydnabod ar y daflen Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaethau.

Grantiau Cyfalaf y Llywodraeth

Mae grantiau anghylchol a dderbynnir mewn perthynas â chaffael neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig. Credydur grantiau o'r fath i grantiau cyfalaf gohiriedig a gwneir trosglwyddiad yn flynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â'r tâl dibrisiant ar yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

Cyllid Grant Anllywodraethol

Cyfrifir am incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir ar sail perfformiad a'i gynnwys i'r graddau y mae'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a gafwyd cyn perfformiad o'r fath yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaethau.

Rhoddion a Gwaddolion

Mae trafodion heb gyfnewid a heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion. Mae rhoddion a gwaddolion gyda chyfyngiadau a osodir gan roddwyr yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r cronfeydd. Mae incwm yn cael ei gadw yn y gronfa gyfyngedig nes ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, a bryd hynny bydd yr incwm yn cael ei ryddhau i gronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad i gronfa wrth gefn.

Cydnabyddir rhoddion heb gyfyngiadau mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian. Cofnodir incwm buddsoddi ac adbrisiant gwaddolion mewn incwm yn y flwyddyn y mae'n codi, ac fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â'r telerau cyfyngiadau eraill a gymhwyswyd i'r gronfa waddol unigol.

Nodir pedwar prif fath o roddion a gwaddolion yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi y bydd y gronfa'n cael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ar wahân i brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi y bydd y gronfa'n cael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r arian y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i ddosbarthu fel asiantau talu ar ran corff ariannu yn cael ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg bychan iawn neu'n cael ychydig iawn o fudd economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad.

Yn ystod 2017/18, ymrwymodd y Brifysgol i gytundeb Asiantaeth ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Arlwygo ar gampws Plas Coch ac mae'n parhau i fod ar waith. Mae'r holl incwm a gwariant cysylltiedig wedi'u cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol gan fod y Brifysgol yn cadw risg neu wobwr y gweithgaredd o dan y cytundeb asiantaeth hwn.

Prydlesi a chontractau hurbwrcas

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu priodoli i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Caiff prydlesi cyllid, sy'n trosglwyddo'n sylweddol holl fuddion a risg perchnogaeth ased i'r Brifysgol, eu trin fel pe bai'r ased wedi'i brynu'n gyfan gwbl. Mae'r asedau wedi'u cynnwys mewn asedau sefydlog ac mae elfennau cyfalaf yr ymrwymadau prydlesu yn

cael eu dangos fel rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid.

Ymdrinnir â rhent prydles fel ei fod yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r rhwymedigaethau sy'n weddill, a chodir yr elfen llog ar y cyfrif incwm a gwariant yn gymesur â'r elfen gyfalaf ostyngol sy'n weddill.

Mae asedau sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid yn cael eu dibrisio dros naill ai gyfnod y brydles neu oes economaidd ddefnyddiol asedau cyfatebol a berchnogir, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae prydlesu asedau dan brydles cyllid (Parc y Glowyr) yn cael ei drin fel dyledwr tymor byr a thymor hir sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau rhwymedigaethau dyledwyr sy'n weddill, a chofnodir yr elfen llog fel incwm yn y cyfrif incwm a gwariant yn gymesur â'r elfen gyfalaf ostyngol sy'n weddill.

Treth

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Felly, mae'n elusen o fewn ystyr Paragraff 1 atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 ac yn unol â hynny, mae'r Brifysgol o bosibl wedi'i heithrio o Dreth Gorfforaeth y DU mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpesir gan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Mae pob is-gwmni yn y DU yn agored i dreth gorfforaeth yn yr un ffordd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriadau tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW na ellir ei hadennill ar fewnbynnau wedi'i gynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath. Cynhwysir unrhyw TAW na ellir ei hadennill a ddyrannwyd i asedau sefydlog diriaethol yn eu cost.

Mae pob is-gwmni yn y DU yn agored i TAW yn yr un ffordd ag unrhyw sefydliad masnachol arall ac eithrio pan fo unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan is-gorff prifysgol yn gyflenwad addysg esempt.

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog yn cael eu datgan ar sail cost dybiedig, llai dibrisiant cronodig a cholledion amhariad cronodig. Mae eitemau penodol o asedau sefydlog wedi'u hail-brisio i werth teg ar neu cyn dyddiad trosglwyddo i'r FE HE SORP 2015, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ail-brisio ar ddyddiad yr ail-brisio hwnnw.

Pan fydd gan rannau o ased sefydlog oes ddefnyddiol gwahanol, rhoddir cyfrif amdanynt fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog.

Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio. Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig o 50 mlynedd. Caiff y cae hoci ei ddibrisio dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o 10 mlynedd. Mae gwariant cyfalaf a gymhwysir i adeiladau presennol yn cael ei ddibrisio dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig o 10 mlynedd.

Pan fydd adeiladau'n cael eu caffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu

i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig ac yn cael eu rhyddhau i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisiant.

Mae gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol neu grŵp o eitemau cysylltiedig yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod caffael. Mae'r holl osodiadau, ffitiadau ac chyfarpar eraill yn cael eu cyfalafu yn ôl y gost. Mae cerbydau modur yn cael eu cyfalafu yn ôl y gost.

Caiff yr holl asedau eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- Gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar – pum mlynedd
- Cerbydau modur - pum mlynedd

Pan fydd cyfarpar yn cael ei gaffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod, gyda'r grant cysylltiedig yn cael ei gredydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr offer cysylltiedig. Polisi'r Brifysgol yw peidio ag ailbrizio'r dosbarth hwn o asedau.

Mae cyfarpar a gaffaelir ar gyfer prosiect penodol a ariennir yn cael ei ddibrisio dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig sydd fel arfer yn cyfateb i gyfnod y prosiect.

Cynhelir adolygiad ar gyfer amhariad ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos nad oes modd adennill swm cario ymlaen yr ased sefydlog.

Mae unrhyw amhariadau sy'n deillio o ddefnyddio buddion economaidd yn amlwg yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod pan fyddant yn digwydd.

Mae unrhyw ailbrizio ar i lawr nad yw yn ganlyniad i ddefnyddio buddion economaidd yn amlwg hefyd yn cael ei gydnabod yn y datganiad o gyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr yn y cyfnod pan fyddant yn digwydd.

Mae gwariant i sicrhau bod ased sefydlog diriaethol yn cynnal ei safon perfformiad a gydnabyddid yn flaenorol yn cael ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y digwyddodd y gwariant hwnnw. Mae gan y Brifysgol raglen cynnal a chadw wedi'i chynllunio, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol.

Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar sail cost dybiedig llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros 5 mlynedd.

Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau rhestredig a ddelir fel asedau gwaddol yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Dangosir buddsoddiadau mewn ymgymeriadau is-gyrff ac endidau heb eu rhestru ar sail cost neu gost llai amhariad. Cynhwysir buddsoddiadau asedau cyfredol ar sail cost, gyda llog a dderbyniwyd yn cael ei gofnodi yn y Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod.

Stock

Mae stoc yn cael ei nodi ar sail cost neu'r gwerth realeiddiadwy net, pa un bynnag sydd isaf.

Arian a chyfwerth ag arian

Mae llifoedd arian parod yn cynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn arian parod. Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian yn y banc ac adneuon sy'n ad-daladwy ar alw. Mae blaendaliadau'n ad-daladwy ar alw os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb. Nid yw unrhyw fuddsoddiadau eraill, waeth pa mor hylifol ydynt, yn cael eu cynnwys fel arian parod. Mae adnoddau hylifol yn cynnwys symiau ar adnau tymor byr gyda banciau cydnabyddedig. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw asedau o'r fath a ddelir fel asedau gwaddol. O dan FRS102, mae'r eithriad rhag y gofyniad i baratoi datganiad llif arian ar wahân ar gyfer y Brifysgol wedi cael ei gymhwyso.

Trosi arian cyfred tramor

Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian cyfred tramor yn cael eu trosi i arian cyflwyno'r grŵp (Sterling) ar y cyfraddau cyfnewid sy'n bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny'n cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn codi.

Offerynnau ariannol

Rheoli risg

Prif offerynnau ariannol y Brifysgol yw arian parod, buddsoddiadau a benthyciadau. Amcan craidd yr offerynnau ariannol hyn yw diwallu anghenion ariannu gweithrediadau'r Brifysgol. Yn ogystal, mae gan y Brifysgol asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill sy'n deillio'n uniongyrchol o'i gweithrediadau h.y. dyledwyr a chredydwyr masnach.

Rydym wedi asesu effaith bosibl Brexit ar y sefydliad ar hyn o bryd ac yn ystyried nad oes unrhyw effaith sylweddol na risg sylweddol i fusnes hyfyw.

Risg credyd

Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd parti i gontract yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau cytundebol gan arwain at golled ariannol i'r Brifysgol.

Mae dyledwyr masnachol a myfyrwyr yn cael eu hadolygu'n barhaus a gwneir darpariaeth ar gyfer dyledion drwg os bydd adferiad yn ansicr. Os tybir na ellir adfer dyled gan ddyledwr, caiff ei dileu. Mae'r crynodiad risg yn gyfyngedig oherwydd nifer fawr o gwsmeriaid amrywiol ar draws myfyrwyr a phoblogaethau cwsmeriaid masnachol.

Risg hylifedd

Mae risg hylifedd yn cyfeirio at y risg na fydd y Brifysgol yn gallu bodloni ei rhwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae monitro risg hylifedd yn rheolaidd yn nodwedd hanfodol o weithgareddau rheoli'r trysorlys.

Mae rhagolygon llif arian yn rhan o broses gynllunio 5 mlynedd y Brifysgol ac fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae risg arian cyfred tramor yn cyfeirio at y risg y gallai symudiad anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid achosi colled ariannol i'r Brifysgol. Prif amlygiad y Brifysgol i arian cyfred tramor yw'r ewro. Adolygir lefel gweithredu yr ewro yn rheolaidd i liniaru risg symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

Y tri phrif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw:

1. Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)
2. Cynllun Pensiwn Prifysgolion (USS)
3. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

Mae pob cynllun yn gynllun buddion diffiniedig sy'n cael eu rheoli'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P), ond ni ellir pennu elfen ariannol Prifysgol Wrecsam o'r TPS ac USS ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau costau diffiniedig o dan FRS102. Codir cyfraniadau i'r cynlluniau ar y cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes gwaith y gweithwyr gyda'r Brifysgol yn y fath fodd fel bod cost y pensiwn yn ganran wastad sylweddol o'r gyflogres bensiynadwy bresennol ac yn y dyfodol. Mae amrywiadau o gostau rheolaidd yn cael eu gwasgaru dros weddill oes waith ddisgwyliedig aelodau'r cynlluniau ar ôl caniatáu am fwy o dynnu'n ôl.

Pennir y cyfraniadau gan actiariaid cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanol. Ni ellir pennu elfen ariannol Prifysgol Wrecsam o'r TPS a'r USS ac, o'r herwydd, caiff y rhain eu trin fel cynlluniau costau diffiniedig o dan FRS 102.

Mae gwarged neu ddiffyg y LGPS yn cael ei gydnabod fel ased neu atebolrwydd ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cofnodir cost gyfredol y gwasanaeth a chostau'r gwasanaeth yn y gorffennol o fewn costau staff.

Cyfrifir yr elfen llog yn seiliedig ar ddiffyg diwedd y flwyddyn (rhwymedigaeth net) wedi'i luosi â'r gyfradd ddisgownt. Mae'r holl newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg pensiwn o ganlyniad i newidiadau mewn tybiaethau actwaraidd neu wahaniaethau rhwng rhagolygon actwaraidd a'r alldro gwirioneddol yn cael eu hadrodd yn y datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i ariannu diffygion yn y gorffennol yn y cynllun USS.

Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Caiff darpariaethau eu cydnabod yn y datganiadau ariannol pan:

- a) fo gan y Brifysgol rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- b) ei bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a
- c) gellir amcangyfrif yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

Mae'r swm sy'n cael ei gydnabod fel darpariaeth yn cael ei ddisgowntio i ddangos gwerth lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond drwy ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth y Brifysgol yn gyfan gwbl. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased digwyddiadol yn codi lle mae digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased tebygol i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond drwy ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth y Brifysgol yn gyfan gwbl.

Nid yw rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ond maent yn cael eu datgelu drwy eu nodi.

Penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Paratoi rheoli datganiadau ariannol cyfunol y Brifysgol i wneud penderfyniadau ac amcangyfrifon allweddol a allai effeithio ar gymhwysu'r polisiau a'r ffigurau cyfrifyddu a adroddir arnynt yn y cyfrifon. Mae'r penderfyniadau a'r amcangyfrifon sydd â risg sylweddol o newid sylweddol i werth cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn cael eu hegluro isod.

Penderfyniadau

Cydnabod refeniw

Gall refeniw grant ac ymchwil fod yn amodol ar farn ynghylch pryd mae gan y brifysgol hawl i gydnabod a derbyn y cyllid hwn. Pan dderbynnir cyllid ymlaen llaw, caiff refeniw ei gydnabod yn unol â gwariant sydd, ym marn y brifysgol, yn creu'r hawl i gydnabod cyllid gan gyrff dyfarnu. Mae rhai cytundebau cyllido yn nodi y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar sail ad-dalu; yn yr achosion hyn, mae'r brifysgol yn cronni refeniw wrth i wariant gael ei wneud. Bryd hynny, mae'r brifysgol yn barnu bod hawl i gael ad-daliad.

Amhariad ar asedau

Mae rheolwyr yn adolygu gwerth asedau i sicrhau nad oes unrhyw ddangosyddion amhariad yn asedau'r brifysgol. Wrth asesu eiddo, offer a chyfarpar ar gyfer amhariad, ystyrir oedran, cyflwr a newid defnydd.

Amcangyfrifon

Pa mor adferadwy yw dyledwyr

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn seiliedig ar amcangyfrif y brifysgol o ddyledion na ellir eu hadennill. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar brofiad hanesyddol, tueddiadau a ffactorau economaidd cyfredol yn ogystal â gwybodaeth gyfredol am amgylchiadau cwsmeriaid. Darperir darpariaeth ar sail oedran y ddyled, gyda swm y ddarpariaeth yn cynyddu wrth i'r ddyled heneiddio. Ar 31 Gorffennaf 2024, amcangyfrifwyd bod dyled ddrwg y brifysgol yn £3,259k.

Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Rhoddir cyfrif am gynllun pensiwn llywodraeth leol fel cynllun buddion diffiniedig. Mae prisiadau actwaraidd yn cael eu derbyn yn flynyddol gan Mercer. Mae'r cynllun hwn mewn gwaged ar hyn o bryd, ac nid yw'r rheolwyr yn credu bod gan y brifysgol hawliau llawn i gael ad-daliad, felly nid yw'n cael ei ddal fel ased ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2024. I gael rhagor o fanylion am y cynllun, gweler nodyn 24.

Cronfa wrth gefn

Dosberthir cronfeydd wrth gefn yn gyfyngedig neu'n anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, drwy waddol i Grŵp y Brifysgol, yn cael eu dal fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Grŵp ei dal am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi pwrpas penodol ac felly mae'r Grŵp wedi'i gyfyngu o ran defnyddio'r cronfeydd hyn.

Datganiad Cyfunol a Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

	Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024		Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023	
		Cyfunol	Prifysgol	Cyfunol	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	47,745	47,745	37,129	37,129
Grantiau cyrff ariannu	2	7,010	7,010	5,567	5,567
Grantiau ymchwil a chontractau	3	385	385	700	700
Incwm arall	4	5,760	4,248	7,011	5,624
Incwm o fuddsoddiadau	5	1,504	1,504	382	382
Rhoddion a gwaddolion	6	5	5	110	110
Cyfanswm yr incwm		62,409	60,897	50,899	49,512
Gwariant					
Costau staff	7	26,514	25,118	23,259	22,008
Costau pensiwn eraill	7	2,723	2,609	2,130	2,013
Pensiwn Cyflogwr LGPS	7	1,698	1,698	2,521	2,521
Treuliau gweithredu eraill	9	27,221	26,266	22,099	21,709
Amortyddiad/Dibrisio	11-12	3,072	2,966	2,702	2,596
Amhariad dyled rhwng cwmnïau	14	-	162	-	1,582
Costau llog a chyllid eraill	8	32	32	407	407
Cyfanswm gwariant		61,260	58,851	53,118	52,837
Gwarged/(Diffyg) cyn enillion eraill/(colledion)		1,149	2,046	(2,219)	(3,325)
Elw ar waredu asedau sefydlog	12	4,124	4,124	17	17
Gwarged/(Diffyg) cyn treth		5,273	6,170	(2,202)	(3,308)
Trethiant	10	45	45	50	50
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn		5,228	6,125	(2,252)	(3,358)
Incwm cynhwysfawr arall					
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	23	194	194	12,151	12,151
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		5,422	6,319	9,899	8,793
Cynrychiolwyd gan:					
Incwm Cynhwysfawr Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		(3)	(3)	586	106
Incwm Cynhwysfawr Anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn		5,425	6,322	9,313	8,687
		5,422	6,319	9,899	8,793
Wedi'i briodoli i'r Grŵp Prifysgol		5,422	6,319	9,899	8,793
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn wedi'i briodoli i:		5,228	6,125	(2,252)	(3,358)
Grŵp Prifysgol					

Mae pob eitem o incwm a gwariant yn berthnasol i weithgareddau parhaus

Datganiad Cyfunol a Datganiad ar Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn y Brifysgol

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

Cyfanswm			Cyfunol
	Cronfeydd £'000	Anghyfyngedig ig £'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2022	200	50,503	50,703
Gwarged/(Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	97	(2,349)	(2,252)
Addasiad ar gyfer balansau anghyfyngedig mewn Is-gorff	474	(474)	-
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	-	12,151	12,151
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	15	(15)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	586	9,313	9,899
Balans ar 1 Awst 2023	786	59,816	60,602
(Diffyg)/Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	(3)	5,231	5,228
Addasiad ar gyfer balansau anghyfyngedig mewn Is-gorff	-	-	-
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	-	194	194
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	361	(361)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	358	5,064	5,422
Balans ar 31 Gorffennaf 2024	1,144	64,880	66,024

Cyfanswm			Prifysgol
	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2022	200	50,267	50,467
Gwarged/(Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	106	(3,464)	(3,358)
Rhodd Cymorth a dderbyniwyd	-	29	29
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	-	12,151	12,151
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	106	8,716	8,822
Balans ar 1 Awst 2023	306	58,983	59,289
(Diffyg)/Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	(3)	6,128	6,125
Rhodd Cymorth a dderbyniwyd	-	34	34
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	-	194	194
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(3)	6,355	6,353
Balans ar 31 Gorffennaf 2024	303	65,338	65,642

Datganiad Cyfunol a Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

		2024	2024	2023	2023
	Nodiadau	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anniriaethol	11	245	245	252	252
Asedau sefydlog	12	69,718	66,860	65,138	62,888
		<u>69,963</u>	<u>67,105</u>	<u>65,390</u>	<u>63,140</u>
Asedau cyfredol					
Stoc	13	24	8	27	9
Masnach a derbyniadau eraill: symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn sy'n methu	14	9,277	9,093	8,875	8,011
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	19	24,118	24,018	26,971	26,798
		<u>33,419</u>	<u>33,119</u>	<u>35,873</u>	<u>34,818</u>
Llai: Credydwy: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn	15	(23,123)	(22,738)	(27,025)	(26,828)
Asedau cyfredol net		<u>10,296</u>	<u>10,381</u>	<u>8,848</u>	<u>7,990</u>
Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol		<u>80,259</u>	<u>77,486</u>	<u>74,238</u>	<u>71,130</u>
Masnach a derbyniadau eraill: Symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn	16	302	302	302	302
Credydwy - symiau yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn	17	(12,444)	(10,267)	(11,493)	(9,698)
Darpariaethau					
Darpariaethau pensiwn	18	(1,879)	(1,879)	(2,009)	(2,009)
Darpariaethau eraill	18	(214)	-	(436)	(436)
Cyfanswm asedau net		<u>66,024</u>	<u>65,642</u>	<u>60,602</u>	<u>59,289</u>
Arian wrth gefn cyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – arian wrth gefn cyfyngedig	20	1,144	303	786	306
Arian wrth gefn anghyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig		64,880	65,338	59,816	58,983
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		<u>66,024</u>	<u>65,642</u>	<u>60,602</u>	<u>59,289</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd Llywodraethwyr ar 29ain Tachwedd 2024 a'u hawdurdodi ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:



Dr Leigh Griffin
Cadeirydd y Llywodraethwyr



Yr Athro Joseph Yates
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr

Datganiad Cyfunol o Lifau Arian

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

	2024	2023
	£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol		
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	5,228	(2,252)
Addasiad ar gyfer eitemau heb fod yn arian		
Dibrisiant	3,072	2,702
Gostyngiad mewn stoc	3	6
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledwyr < 1 FI	(402)	(2,789)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr < 1 FI	(4,065)	9,843
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaeth pensiwn	64	670
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau eraill	(222)	(325)
Addasiad ar gyfer buddsoddi neu weithgareddau ariannu		
Incwm o fuddsoddiadau	(1,504)	(382)
Llog yn daladwy	-	40
Colled/(Elw) o werthu asedau sefydlog	(4,124)	(17)
Cyllid grant cyfalaf	(1,531)	(1,324)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol	(3,481)	6,172
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Derbyniadau cyllid cyfalaf	2,650	1,324
Incwm o fuddsoddiadau	1,504	382
Gwaredu ased sefydlog	4,546	17
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog	(8,067)	(3,876)
Adnau newydd	-	5,000
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi	633	2,847
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Llog a dalwyd	-	(40)
Elfen gyfalaf ar brydles cyllid	(5)	-
Llif arian net o weithgareddau ariannu	(5)	(40)
(Gostyngiad)/Cynnydd yn yr arian parod a chyfatebol i arian parod yn ystod y flwyddyn	(2,853)	8,979
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	26,971	17,992
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar 31 Gorffennaf 2024	24,118	26,971

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

	2024		2023	
	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000
1 Ffioedd dysgu a chontractau addysg				
Myfyrwyr gartref a myfyrwyr yr UE llawn amser	13,349	13,349	14,057	14,057
Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser	22,663	22,663	15,262	15,262
Myfyrwr rhan amser	4,957	4,957	3,914	3,914
Contractau Academaidd	6,776	6,776	3,896	3,896
	47,745	47,745	37,129	37,129
2 Grantiau cyrff				
Grant rheolaidd				
Cyngor Ariannu Addysg Uwch	2,401	2,401	2,339	2,339
Grantiau penodol				
Ariannu Addysg Uwch Arall	2,589	2,589	1,530	1,530
Prentisiaethau Gradd Ariannu Addysg Uwch	680	680	404	404
Ymchwil Ansawdd Cyngor Ariannu Addysg Uwch	182	182	244	244
Gwariant cyfalaf	567	567	466	466
Adeiladau Cyfarpar	591	591	584	584
	7,010	7,010	5,567	5,567
3 Grantiau ymchwil a chontractau				
Cynghorau ymchwil	133	133	1	1
Elusennau ymchwil	5	5	19	19
Llywodraeth (Y DU a thramor)	220	220	627	627
Diwydiant a'r byd masnach	27	27	53	53
	385	385	700	700
4 Incwm arall				
Preswylfeydd, arlwy a chynadleddau	2,454	2,454	2,519	2,519
Grantiau cyfalaf eraill	373	282	274	183
Incwm arall	2,933	1,512	4,218	2,922
	5,760	4,248	7,011	5,624
5 Incwm				
Incwm o fuddsoddiadau eraill	1,504	1,504	382	382
	1,504	1,504	382	382
6 Incwm a gwaddolion				
Rhoddion	5	5	110	110
	5	5	110	110

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

	2024		2023	
	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000	Cyfunol £'000	Prifysgol £'000
7 Costau staff				
Costau Staff:				
Cyflogau				
Costau nawdd cymdeithasol	23,960	22,686	20,935	19,837
Costau Diswyddiadau	2,357	2,255	2,105	2,006
Costau Staff	<u>197</u>	<u>177</u>	<u>219</u>	<u>165</u>
	26,514	25,118	23,259	22,008
Costau pensiwn eraill	2,723	2,609	2,130	2,013
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr Cynllun	1,323	1,323	2,042	2,042
Pensiwn Awdurdod Lleol	<u>375</u>	<u>375</u>	<u>479</u>	<u>479</u>
Costau gwasanaeth cyfredol y Cynllun	4,421	4,307	4,651	4,534
Pensiwn Awdurdod Lleol				
Costau Pensiwn				
Cyfanswm Costau Staff	30,935	29,425	27,910	26,542

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

7 Costau staff (parhad)

	2024	2023
Enillion yr Is-ganghellor		
Cyflog	£	£
Cyfanswm costau heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	<u>220,242</u>	<u>211,851</u>
Cyfraniadau pensiwn i Gynllun Pensiwn Athrawon	<u>220,242</u>	<u>211,851</u>
Cyfanswm costau heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	<u>55,824</u>	<u>16,722</u>
	<u>276,065</u>	<u>228,573</u>

Talwyd y costau i'r Is-ganghellor, yr Athro Maria Ninfelaar, sydd wedi cael ei thalu yn unol â'i thelerau cytundebol.

Mae'r corff llywodraethol wedi mabwysiadu Cod Tâl Cydnabyddiaeth Staff Hŷn Pwyllgor Athrawon y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2019 ac yn asesu tâl staff hŷn yn unol â'i egwyddorion. Mae pecyn tâl deiliaid swyddi hŷn, gan gynnwys yr Is-ganghellor, yn ddibynnol ar gael ei adolygu'n flynyddol gan Bwyllgor Tâl y Bwrdd Llywodraethwyr. Darperir eglurhad llawn o'r broses ar gyfer asesu perfformiad yr Is-ganghellor a phenderfynu ar eu tâl a'i gyfiawnhau yn yr adran adroddiad blynyddol.

Mae tâl sylfaenol yr Is-ganghellor yn 6.27 gwaith tâl canolrif staff (2023 - 6.16 gwaith), lle caiff tâl canolrif ei gyfrifo ar sail tâl sy'n cyfateb i amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol a'i his-gyrff i'w staff.

Mae cyfanswm tâl yr Is-ganghellor yn 7.02 gwaith tâl canolrif staff (2023 - 5.73 gwaith), lle caiff tâl canolrif ei gyfrifo ar sail tâl sy'n cyfateb i amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol a'i his-gyrff i'w staff. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys tâl sylfaenol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Nid yw'r cyfrifiadau canolrif yn cynnwys staff asiantaeth nad ydynt yn gyflogedig gan y Brifysgol na'i his-gyrff lle cyfrifir am y gost o fewn Costau Gweithredu Eraill.

Taliadau staff eraill ar dâl uchel, heb fod yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr:

	2024	2023
	Nifer	Nifer
£100,000 - £104,999	-	2
£105,000 - £109,999	1	3
£110,000 - £114,999	1	1
£115,000 - £119,999	2	-
£120,000 - £124,999	1	1
£125,000 - £129,999	-	-
£130,000 - £134,999	1	-
£135,000 - £139,999	-	-
	<u>6</u>	<u>7</u>
	2024	2023
	£	£
Digolledu personél rheoli allweddol	<u>1,119,934</u>	<u>1,152,216</u>

Yn y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2024, derbyniodd 1 aelod o bersonél rheoli allweddol £65k er mwyn digolledu oherwydd colli swydd.

Mae rheolaeth allweddol yn cynnwys tîm Gweithredol y Brifysgol sy'n cynnwys Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor (Gwag), Dirprwy Is-ganghellor Partneriaethau, Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol, Cyfarwyddwr AD, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Deon y Gyfadran.

Nifer cyfartallog staff yn ôl prif gategori:

	2024	2023
	Nifer	Nifer
Adrannau Addysgu a Chefnogaeth Academiaidd	251	234
Gwasanaethau Gweinyddol a Chanolog	279	251
Safleoedd	32	25
	<u>562</u>	<u>510</u>

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

	2024		2023	
	Cyfunol	Prifysgol	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
8 Costau llog a chyllid eraill				
Llog benthyciad	-	-	40	40
Tâl net ar gynllun pensiwn USS	5	5	7	7
	<u>5</u>	<u>5</u>	<u>47</u>	<u>47</u>
Tâl net ar Gynllun Pensiwn Awdurdod Lleol	27	27	360	360
	<u>27</u>	<u>27</u>	<u>360</u>	<u>360</u>
	<u>32</u>	<u>32</u>	<u>407</u>	<u>407</u>
	2024		2023	
	Cyfunol	Prifysgol	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
9 Dadansoddiad ar wariant gweithredol drwy yn ôl gweithgaredd				
Gwariant Academaidd a Pherthnasol	14,706	14,152	11,781	11,456
Gwasanaethau Gweinyddol a Chanolog	5,063	5,063	3,803	3,803
Safleoedd	5,024	5,053	4,181	4,293
Preswylfeydd, Arlwyo a Chynadleddau	1,477	1,477	875	875
Grantiau Ymchwil a Chontractau	311	311	541	541
Costau Eraill	640	210	918	741
	<u>27,221</u>	<u>26,266</u>	<u>22,099</u>	<u>21,709</u>
Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:				
Tâl archwilwyr allanol oherwydd gwasanaethau archwilio	99	79	150	120
Rhent prydles weithredol				
Arall	95	95	36	36
10 Treth				
	2024		2023	
	Cyfunol	Prifysgol	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Wedi'i gydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr				
Treth cyfredol				
Cost treth cyfredol	45	45	50	50
Addasiad oherwydd blynyddoedd blaenorol	-	-	-	-
Cost treth cyfredol	<u>45</u>	<u>45</u>	<u>50</u>	<u>50</u>
Treth Ohiriedig				
Cost treth ohiriedig	-	-	-	-
Cyfanswm cost treth	<u>45</u>	<u>45</u>	<u>50</u>	<u>50</u>

Ym marn Bwrdd y Llywodraethwyr, mae meini prawf y s505ICTA 1998 a s26 TCGA 1992 yn cael eu cyflawni a does dim atebolrwydd Treth Gorfforaethol yn codi ar weithgareddau'r Brifysgol am y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf neu 31 Gorffennaf 2023.

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

11 Asedau Anniriaethol

Cyfunol

	Ewyllys da €1000	Meddalw edd €1000	Cyfan swm €1000
Cost			
Ar 1 Awst 2023	678	452	1,130
Ychwanegiadau	-	-	-
Trosglwyddiadau	-	98	98
Gwarediadau	(678)	-	(678)
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	550	550
Costau Amorteiddiad			
Ar 1 Awst 2023	678	200	878
Cost ar gyfer y flwyddyn	-	105	105
Trosglwyddiadau	-	-	-
Gwarediadau	(678)	-	(678)
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	305	305
Gwerth net ar y llyfrau			
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	245	245
Ar 31 Gorffennaf 2023	-	252	252

Y Brifysgol

	Ewyllys da €1000	Meddalw edd €1000	Cyfan swm €1000
Cost			
Ar 1 Awst 2023	678	452	1,130
Ychwanegiadau	-	-	-
Trosglwyddiadau	-	98	98
Gwarediadau	(678)	-	(678)
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	550	550
Costau amorteiddiad			
Ar 1 Awst 2023	678	200	878
Cost ar gyfer y flwyddyn	-	105	105
Trosglwyddiadau	-	-	-
Gwarediadau	(678)	-	(678)
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	305	305
Gwerth net ar y llyfrau			
Ar 31 Gorffennaf 2024	-	245	245
Ar 31 Gorffennaf 2023	-	252	252

Yn ystod y flwyddyn cafodd meddalwedd gyda swm cario ymlaen o £98,000 (2023: £305,000) eu trosglwyddo o asedau sefydlog trosglwyddadwy i asedau sefydlog anniriaethol.

Nodiadau ar Gyfrifon

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

12 Asedau Sefydlog

Cyfunol

	Tir Rhydd-ddaliad ac Adeiladau £'000	Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer	Asedau wrth Adeiladau £'000	Cyfan swm £'000
Cost Dybiedig				
Ar 1 Awst 2023	71,552	10,726	2,300	84,578
Ychwanegiadau	38	857	7,172	8,067
Trosglwyddiadau	1,649	264	(2,011)	(98)
Gwarediadau	(220)	-	(202)	(422)
Ar 31 Gorffennaf 2024	73,019	11,847	7,259	92,125
Dibrisiant				
Ar 1 Awst 2023	11,251	8,189	-	19,440
